Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Cynllun Strategol AaGIC ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth



# Cynnwys

1: Rhagair .......... 1

2: Cwmpas .......... 2

3: Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yng Nghymru 3

4: Sut cafodd y cynllun ei ddatblygu .......... 7

5: Ein huchelgais .......... 11

6: Sut bydd ein gweithlu'n edrych yn y dyfodol? .......... 14

7: Y Camau Gweithredu .......... 18

8: Y Manteision .......... 35

9: Rhoi ar waith .......... 36

10: Llywodraethu ac Atebolrwydd .......... 36

11: Cyfeiriadau .......... 37

# 1: Rhagair

Fel Corff Strategol y Gweithlu GIG Cymru, ein rôl ni yw datblygu cynlluniau cynaliadwy a chynhwysfawr ar gyfer gweithlu heddiw ac yfory, a hynny drwy gydweithio â'n partneriaid sy'n cynnwys gweithwyr, cyflogwyr, contractwyr annibynnol, cyrff proffesiynol, undebau, rheoleiddwyr, darparwyr addysg, elusennau a Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen strategol hon yn amlinellu cynllun arfaethedig i ddatblygu'r gweithlu fferylliaeth yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu yng nghyd-destun y weledigaeth 10 mlynedd ar gyfer fferylliaeth, 'Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach',[1] sy'n amlinellu nodau ac egwyddorion hirdymor, a chamau gweithredu tymor byr sydd eu hangen i drawsnewid rôl a chyfraniad fferyllwyr, technegwyr fferyllol, y tîm fferylliaeth ehangach a safleoedd fferyllol. Mae'r cynllun hefyd yn seiliedig ar 7 prif thema'r Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru,[2] a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.

AaGIC sydd wedi arwain y gwaith o ddatblygu'r cynllun, ond mae wedi deillio o ymdrech ar y cyd â phartneriaid i weithio ar atebion tymor byr, tymor canolig a thymor hir i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r gweithlu fferylliaeth ar hyn o bryd. Bydd gweithio ar y cyd fel hyn yn dal yn hanfodol wrth i ni symud ymlaen at y cam gweithredu. Ein nod yw gweld y cynllun hwn yn sbarduno newid radical a gwelliannau cynhwysfawr o ran y ffordd rydym yn datblygu, gwerthfawrogi a chefnogi ein gweithlu fferylliaeth, i gydnabod y rôl arweinyddiaeth glinigol y mae'r gweithlu'n ei chwarae fwy a mwy wrth ofalu am bobl sy'n defnyddio meddyginiaethau, mewn amrywiaeth o leoliadau.

Rydym yn cydnabod mai meddyginiaethau yw'r ymyriad gofal iechyd mwyaf cyffredin a wneir gan lawer o ymarferwyr clinigol. Mae'r cynllun yn gyfle i sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth y sgiliau a'r cymhwysedd i ymgymryd â'u rôl arwain broffesiynol mewn perthynas â defnyddio meddyginiaethau ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cyffredinol. Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth mewn sefyllfa dda i wneud yn siŵr bod pobl eraill yn gallu defnyddio meddyginiaethau'n ddiogel ac yn ddoeth, ac i sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau i'r bobl y maent yn gofalu amdanynt.

Bydd y galw am wasanaethau fferylliaeth yn cynyddu ac yn newid wrth i ni ddod dros y pandemig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio â chyflyrau cronig, yn ogystal â'r datblygiadau technolegol a chlinigol ychwanegol sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft, meddyginiaethau manwl. Felly, mae angen i'r gweithlu fferylliaeth fod yn ddigon hyderus i ymateb i'r her i arwain ar feddyginiaethau, i ystyried ffyrdd newydd o weithio ac arloesi, ac i'n helpu i wneud yn siŵr bod Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru yn ôl ar ei draed cyn gynted ag y bo modd.



*Alex Howells*


Prif Weithredwr,
Addysg a Gwella Iechyd Cymru

# 2: Cwmpas

Mae'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu fferylliaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'n rhanddeiliaid ar gyfer yr holl weithlu fferylliaeth, ym mhob lleoliad gofal lle mae gwasanaethau'r GIG yn cael eu darparu. Ym maes gofal sylfaenol, mae timau fferylliaeth yn gallu cael eu cyflogi gan glystyrau gofal sylfaenol neu gontractwyr gofal sylfaenol a phractis cyffredinol. Mae gwasanaethau fferylliaeth a ddarperir gan sefydliadau'r GIG yn gallu cael eu darparu gan ysbytai, gwasanaethau brys ac arbenigol neu dimau gofal sylfaenol.

Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth ar gyfer yr holl weithlu fferylliaeth yn anghyflawn, ond rydym ni'n amcangyfrif bod y gweithlu'n cynnwys dros 9000 o unigolion, sy'n cael eu cyflogi gan dros 320 o gyflogwyr gwahanol. Dyma'r tri sector cyflogaeth cyffredinol: -

- yn uniongyrchol gan y GIG, neu
- gan gontractwr fferylliaeth gymunedol, neu
- gan gontractwr practis cyffredinol.




**Ffynhonnell: Data System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd am y Gweithlu. Ionawr 2022*

***Ffynhonnell: Cofnod Staff Electronig y GIG. Ionawr 2022*

**** Ffynhonnell: AaGIC. Arolwg o Weithlu Fferylliaeth Gymunedol Cymru 2019*

Mae ein fferyllwyr a'n technegwyr fferyllol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Mae ein hyfforddeion proffesiynol yn ymgymryd â gweithgareddau 'cyn-cofrestru' neu 'sylfaen' sy'n arwain at gofnod ar gofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Dyma'r niferoedd yn ôl cofnodion mis Mawrth 2023 ar gyfer Cymru: -

- 2700 o fferyllwyr,
- 1700 o dechnegwyr fferyllol,
- 200 o hyfforddeion proffesiynol, (fferyllwyr dan hyfforddiant a thechnegwyr fferyllol cyn-cofrestru)

Ar sail data 2019, rydym yn amcangyfrif bod tua 5000 o staff cymorth fferylliaeth. Nid yw'r staff hyn wedi'u cofrestru â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol ond mae'n rhaid iddyn nhw wneud hyfforddiant sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, sy'n berthnasol i'w rôl benodol gyda meddyginiaethau, a gweithio o fewn gweithdrefnau gweithredu safonol.

# 3: Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yng Nghymru

**Daeth datblygu Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yn flaenoriaeth benodol i AaGIC gyda phartneriaid yn ystod 2022-23, a hynny am bum rheswm cryf.**

## 3.1 Newidiadau Rheoleiddiol Mawr y mae angen eu rhoi ar waith

Mae'r cyhoedd yn disgwyl gofal diogel ac effeithiol gan fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol. Pwrpas y Safonau newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol fferyllwyr, [3] a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Fferyllol Cyffredinol yn 2020, yw creu fferyllwyr hyderus a galluog sydd wedi ymrwymo i ddarparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd fferyllwyr yn rhagnodwyr medrus mewn systemau iechyd cymhleth. Mae'r Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol yn dilyn y rheini a gyflwynwyd eisoes ar gyfer technegwyr fferyllol yn 2017 [4] o dan bedair elfen, sef 'gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn', 'proffesiynoldeb', 'gwybodaeth a sgiliau' a 'cydweithio'.

Mae fferylliaeth ar ganol cyfres pum mlynedd o brosiectau trawsnewid i gyflwyno'r Safonau newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol, a fydd yn y pen draw yn creu gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth sydd â sgiliau uwch, er mwyn iddyn nhw allu llenwi swyddi hanfodol i ddarparu gofal clinigol diogel i'r cyhoedd o'r diwrnod cyntaf ar ôl cofrestru. O 2026 ymlaen, bydd pob fferyllydd yn dod yn rhagnodydd annibynnol wrth gofrestru.

Wrth i'r newid gorfodol hwn gael ei roi ar waith gyda'n partneriaid drwy ddull rheoli prosiect, gwelwyd bod risgiau sylweddol wrth weithredu'r Safonau hyn a bod angen rhoi sylw iddynt: -

- Amser i Hyfforddi. Nid oes gan y gweithlu'r adnoddau i ateb y galw cynyddol am leoliadau hyfforddiant fferylliaeth. Gallai hyn effeithio ar ansawdd a nifer y lleoliadau hyfforddi ledled Cymru, gan arwain at ddiffygion yng ngweithlu'r dyfodol a gwneud i'r gweithlu presennol gyrraedd pwynt o fod wedi ymlâdd.
- Prinder yn y gweithlu ar hyn o bryd, sydd hefyd yn gwaethygu. Wrth i nifer y swyddi gwag gynyddu a'r galw am wasanaethau fferylliaeth mewn sefydliadau partner gynyddu, mae hynny'n achosi pwysau yn y system ac yn creu amgylchedd ansefydlog i ddelio â newid mawr. [5,6]
- Mae angen i rolau technegwyr fferyllol a staff cymorth gael eu hymestyn yn ddiogel er mwyn rhyddhau fferyllwyr i ddefnyddio eu sgiliau uwch.

## 3.2 Gwella Llesiant y Gweithlu

Cyn, yn ystod ac ar ôl COVID, mae corff sylweddol o dystiolaeth wedi bod yn cronni sy'n dangos sut mae pwysau yn sgil llwyth gwaith mawr, dros gyfnod hir, wedi cael effaith negyddol ar lesiant y gweithlu fferylliaeth ym mhob sector. [7,8,9,10] Mewn gohebiaeth ar y cyd gan lywodraethau a rheoleiddwyr fferylliaeth, cafodd y gofynion a'r pwysau ar dimau fferylliaeth eu cydnabod ym mis Rhagfyr 2022. [11]

Mae'r rhwystredigaethau sy'n cronni yn rhai amlwg ac wedi cael eu cyhoeddi. Maen nhw'n cynnwys: - teimlo nad ydyn nhw'n cael eu gwerthfawrogi ddigon, lefelau staffio annigonol, systemau gwaith aneffeithlon, diffyg cyfathrebu a chydweithredu ar draws rhyngwynebau gofal iechyd, diffyg atebion digidol neu atebion gwael, mwy o achosion o ymddygiad ymosodol gan y cyhoedd, a'r angen i gael amser oddi wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn cyflawni cyfrifoldebau eraill y rôl.

Mae'r darlun presennol yn cyfleu gweithlu fferylliaeth sy'n teimlo o dan fygythiad yn y gweithle wrth geisio darparu gofal diogel ac effeithiol.[5,6] Mae angen ymyrryd ar frys i leihau bregusrwydd y gweithlu, a'r risgiau cynhenid y mae hyn yn eu hachosi i iechyd a diogelwch y cyhoedd. Mae llawer o broblemau'n parhau oherwydd eu bod yn gymhleth i'w datrys, ac y bydd angen gweithredu mewn ffyrdd arloesol i ddod â'r holl bartneriaid dylanwadol at ei gilydd, mewn ysbryd o gydweithio, i ymrwymo i sicrhau newid parhaol.

Ar ôl dadansoddi arolygon llesiant olynol, mae'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Pharmacist Support wedi cyhoeddi datganiad,[12] sy'n nodi'r camau gweithredu y mae angen eu cymryd ar frys ar gyfer y proffesiwn fferylliaeth, ac mae'r rhain yn berthnasol i'r tîm fferylliaeth drwyddo draw:

| |
|---|
| Rhaid i amgylcheddau gwaith fferylliaeth gael diwylliant o berthyn sy'n gynhwysol, yn dathlu amrywiaeth ac yn cefnogi llesiant |
| Rhaid gofalu bod seibiannau priodol i orffwys ar gael i bob fferyllydd, a rhaid iddyn nhw allu defnyddio'r seibiannau hynny, er lles fferyllwyr a diogelwch cleifion |
| Rhaid i fferyllwyr gael amser dysgu wedi'i neilltuo o fewn oriau gwaith |
| Mae angen buddsoddi yn y gweithlu fferylliaeth er mwyn hyfforddi mwy o staff fferylliaeth i weithio ar lefel eithaf eu gallu |
| Rhaid i fferyllwyr a'u staff gael mynediad parhaus at gymorth cenedlaethol ar gyfer iechyd galwedigaethol a llesiant |

## 3.3 Cynnal mynediad at wasanaethau

Mae'r galw cynyddol am wasanaethau fferylliaeth, a mwy o rolau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth ar draws y llwybr iechyd integredig, wedi creu swyddi gwag. Ym mis Mawrth 2021, ychwanegwyd rôl y fferyllydd at Restr y Swyddfa Gartref o Alwedigaethau lle ceir Prinder.

Yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, rydym wedi cyrraedd sefyllfa lle na fu'n bosibl cynnal mynediad at lefelau ac ansawdd y gwasanaethau fferylliaeth ar gyfer ein poblogaeth fel y byddem yn dymuno. Gwelir enghreifftiau yng Nghymru o wasanaethau fferylliaeth yn cael eu lleihau yn yr ysbyty[13] a'r gymuned.[14]

Mae'r duedd o gau fferyllfeydd cymunedol dros dro ar fyr rybudd yn parhau. Mae absenoldeb Fferyllydd Cyfrifol ar gyfer y safle yn cael effaith negyddol ar fynediad lleol at feddyginiaethau a gwasanaethau mewn cymunedau.

### Nifer y fferyllfeydd cymunedol a gafodd eu cau dros dro ar fyr rybudd yng Nghymru

| | Mis | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn Ariannol | 04 | 05 | 06 | 07 | 08 | 09 | 10 | 11 | 12 | 01 | 02 | 03 | Cyfanswm |
| 2021-2022 | 3 | 23 | 78 | 223 | 203 | 188 | 116 | 187 | 158 | 173 | 193 | 237 | 1782 |
| 2022-2023 | 333 | 171 | 222 | 330 | 170 | 133 | 133 | 94 | 160 | 158 | 74 | 128 | 2106 |
| 2023-2024 | 93 | | | | | | | | | | | | |

*Ffynhonnell: Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Mai 2023.*

## 3.4 Symbylu'r broses o Drawsnewid Gwasanaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi'n sylweddol i gyflwyno'r Safonau newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol, ac i gefnogi'r gwaith o drawsnewid y gweithlu fferylliaeth presennol a gweithlu'r dyfodol. Mae'r cynllun gweithlu yma'n gam arall i helpu'r gweithlu i fwrw ymlaen â phum dylanwad strategol allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau: -

**i)** Y weledigaeth ar gyfer fferylliaeth, '**Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach';** [1] yw ymateb fferylliaeth i 'Cymru Iachach', a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ddogfen strategol allweddol sy'n sbarduno arloesedd a newid ac yn rhoi'r claf wrth galon y gofal.

| Thema | Gweledigaeth 2030 |
|---|---|
| **Gwella Profiad y Claf** | Nid yw cleifion yn profi niwed y gellir ei osgoi o feddyginiaethau. Mae cleifion yn cael cefnogaeth gan dimau fferylliaeth i fod yn iach, gan ganolbwyntio ar hunanofal, atal a chanfod salwch yn gynnar. Mae'r holl fferyllwyr sy'n delio â chleifion yn rhagnodi'n weithredol pan fydd angen hynny ar y claf. |
| **Gofal Fferyllol Di-dor** | Mae timau Fferyllol yn arwain ar y rheolaeth o feddyginiaethau fel arbenigwyr mewn therapiwteg, defnydd ac optimeiddiaeth o feddyginiaethau. Mae Fferylliaeth yn rhan graidd o dîm amlddisgyblaethol y claf a chaiff eu hystyried ymhob llwybr gofal newydd. |
| **Harneisio Arloesi a Thechnoleg** | Mae'r broses o gyflenwi meddyginiaethau'n cael ei symleiddio, ac mae deallusrwydd artiffisial a meddyginiaethau wedi'u personoli yn cael eu hyrwyddo gan dimau fferylliaeth. Mae cofnodion meddygol electronig cleifion yn cael eu gweld a'u diweddaru gan ymarferwyr sy'n ymwneud â'u gofal, gan gynnwys y tîm fferylliaeth. |
| **Datblygu'r Gweithlu Fferyllol** | Mae gan y gweithlu fferyllol y sgiliau angenrheidiol i arwain arloesedd mewn therapïau meddygol. Mae addysg a hyfforddiant wedi ymwreiddio mewn safleoedd hyfforddi aml-sector ac â mewnbwn amlddisgyblaethol. Mae hyfforddiant ar gael i bob aelod o'r tîm fferylliaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu cymaint â phosibl at ofal cleifion. |

**ii)** **Presgripsiwn Newydd:** [15] Mae gwerth datblygu ein gweithlu fferylliaeth gymunedol wedi dod i'r amlwg, yn enwedig drwy ddiwygiadau i fframwaith contract fferylliaeth gymunedol. Roedd y gweithlu fferylliaeth gymunedol yn arfer teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu, fel pe na baent yn rhan 'swyddogol' o'r GIG, ond mae Cymru yn ail-lunio eu rolau yn y tîm gofal sylfaenol. Y tu hwnt i'r rôl draddodiadol o gyflenwi meddyginiaethau, mae timau'n darparu 'gofal pwysig heb ei drefnu' yn agos at y cartref, gan leihau'r ymweliadau â phractisau cyffredinol ac adrannau achosion brys. Mae'r contract newydd hefyd yn sbarduno lefelau gwasanaeth sylfaenol cyffredinol i helpu'r cyhoedd i gael mynediad parhaus.

**iii)** Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau: bydd y prosiect 5 mlynedd hwn yn darparu canolfannau gweithgynhyrchu canolog gyda gweithlu amrywiol ac arbenigol, gan ad-drefnu'r ffordd y mae meddyginiaethau'n cael eu paratoi a'u gweithgynhyrchu i ateb y galw cynyddol.

**iv)** Disgwylir y bydd Adolygiad Annibynnol y Prif Swyddog Fferyllol o Wasanaethau Fferylliaeth Glinigol yn Ysbytai'r GIG yng Nghymru yn darparu mandad ar gyfer trawsnewid, er mwyn sicrhau bod ymarfer mewn ysbytai yn dal yn gwbl arloesol. Mae'r adolygiad, a gynhelir gan Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru, yn ystyried y gwasanaethau fferylliaeth presennol mewn ysbytai, a sut maen nhw'n gwella ansawdd a diogelwch ac yn lleihau niwed sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau. Bydd yr adolygiad yn adrodd ar sut mae gwasanaethau'n cefnogi blaenoriaethau GIG Cymru yn **Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng** a **Trawsnewid a Moderneiddio Gofal a Gynlluniwyd a Lleihau Rhestrau Aros**, yn ogystal â nodi'r cyfleoedd yn y **Fframwaith Clinigol Cenedlaethol**.

**v) Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol:** Ni ellir gorbwysleisio effaith y gwaith hwn yn y dyfodol ar bob elfen o ymarfer fferyllol o ddydd i ddydd. Mae'r rhaglen, sy'n cael ei harwain gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn ymwneud â defnyddio technoleg i wneud y broses o bresgripsiynu, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau ym mhob man yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon, ac yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys popeth o bresgripsiynau electronig mewn ysbytai a gofal sylfaenol i hawliadau am ad-daliadau. Bydd yn disodli siartiau a phresgripsiynau papur ac yn defnyddio e-lofnodion. Bydd y newidiadau hyn yn helpu'r gweithlu i dreulio mwy o amser gyda phobl, gan sicrhau'r canlyniadau iechyd gorau posibl.

## 3.5 Gwella Cynlluniau'r Gweithlu

Mae'r wybodaeth am y gweithlu fferylliaeth sy'n darparu gwasanaethau'r GIG wedi'i rhannu fesul sector ar hyn o bryd, gyda hanes o baratoi cynlluniau'r gweithlu mewn ffordd ynysig. Rydym wedi sicrhau adnodd cychwynnol i ddod â gwahanol setiau data fferylliaeth at ei gilydd, ac i ddatblygu ein gwybodaeth am y gweithlu drwy gamau amrywiol aeddfedrwydd data. Rydym yn gweithio i ddarparu dealltwriaeth go iawn a fydd yn llywio ansawdd ein penderfyniadau a'n cynlluniau er budd yr holl bartneriaid a gwasanaethau.

# Crynodeb o'r ddadl dros newid

Mae'r 'ddadl dros newid' ym maes fferylliaeth yn un frys a chryf os ydym am gynnal diogelwch, ansawdd a mynediad at y gwasanaethau meddyginiaethau sydd eu hangen ar y boblogaeth.

Mae angen sefydlogi'r gweithlu fferylliaeth presennol ar frys. I wneud hyn rhaid lleihau'r pwysau yn y gweithle, er mwyn lleihau'r gyfradd 'ymlâdd oherwydd gorweithio' ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth. Er mwyn cadw ein gweithlu, mae angen i dimau fferylliaeth ym mhob man deimlo eu bod yn rhan werthfawr o'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Bydd y camau hyn yn helpu i leihau'r niferoedd sy'n gadael, ac yn diogelu mynediad at wasanaethau fferylliaeth ar gyfer ein cymunedau.


Mae'n rhaid i ni gynyddu capasiti hyfforddiant fferylliaeth i ddechrau, i gyflawni'r newidiadau rheoleiddiol sydd eu hangen er mwyn datblygu'r gweithlu fferylliaeth, a hefyd i ddarparu llif mwy cynaliadwy o weithwyr ar gyfer y dyfodol.

Mae rolau timau fferylliaeth yn datblygu'n ddi-baid er mwyn ymateb i anghenion newidiol y gwasanaeth, ffyrdd newydd o weithio, technoleg ddigidol ac awtomeiddio. Yn y sefyllfa ddeinamig hon, rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddod o hyd i'r ffordd orau o ddatblygu cymysgedd sgiliau timau fferylliaeth ar gyfer y tymor hir. Rydym yn canolbwyntio ar ddarparu gofal clinigol yn agos at y cartref, a gwneud yn siŵr bod ein hysbytai a'n gwasanaethau fferylliaeth arbenigol a thechnegol yn gwbl arloesol.

# 4: Sut cafodd y cynllun ei ddatblygu

Mae ein gwaith diagnostig wedi cael ei seilio ar y tri bloc adeiladu canlynol sydd wedi cael eu dylunio i gasglu, dadansoddi a thriongli mewnbynnau a gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Mae dogfen dechnegol ar wahân yn dangos y gwaith rydym wedi'i wneud ym mhob elfen.

Wrth lunio'r cynllun hwn, fe wnaethom wrando'n ofalus ar y bobl hynny sy'n darparu neu'n gweithio gyda gwasanaethau fferylliaeth ar draws ein GIG er mwyn cael gwybod beth sy'n bwysig iddyn nhw. Fe wnaethom hefyd adolygu gwybodaeth am y gweithlu, ymchwil a pholisïau cyfredol er mwyn creu'r cynllun hwn.




## 4.1 Ymgysylltu

Cafodd y broses hon ei chynnal dros 12 mis, gan ddechrau gyda Gweithgor Tymor Byr ym mis Ionawr 2022 a gafodd ei greu ar gais rhanddeiliaid. Daeth ein cyfnod ymgysylltu i ben ym mis Ionawr 2023.

Fe wnaethom gynnal 30 o ddigwyddiadau ymgysylltu, gan gynnwys cymysgedd o ddigwyddiadau a gynhaliwyd o bell ac wyneb yn wyneb ar y cyd â'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Aethom ati i gynnal tri arolwg cenedlaethol o'r gweithlu ar draws timau fferylliaeth gymunedol, timau a gyflogir gan y GIG, a thimau fferylliaeth mewn practisau cyffredinol. Yn ystod 3 mis olaf y gwaith ymgysylltu, fe ehangwyd ein sgyrsiau i gynnwys Grwpiau Cymheiriaid Cenedlaethol amlbroffesiwn y GIG. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cynnwys **dros 900 o unigolion** yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth.

Un o ganlyniadau'r cam ymgysylltu oedd cyhoeddi **'Catalogue of Workforce Solutions'**[16] sef casgliad o ymyriadau acíwt sydd wedi cael eu profi yng Nghymru i liniaru'r pwysau wrth ddarparu gwasanaethau fferylliaeth y GIG. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach gyda phartneriaid wrth roi cynllun y gweithlu ar waith.

## 4.2 Data'r Gweithlu

Mae'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu fferylliaeth wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'n rhanddeiliaid ar gyfer pob rhan o'r gweithlu fferylliaeth sy'n darparu gwasanaethau'r GIG i bobl Cymru. Rydym yn amcangyfrif bod y gweithlu yng Nghymru yn cynnwys dros 9000 o unigolion, sy'n cael eu cyflogi gan dros 320 o gyflogwyr gwahanol. Fodd bynnag, mae ein darlun presennol o'r holl weithlu fferylliaeth yng Nghymru yn gyfyngedig. [17]

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu fferylliaeth yn cael eu cyflogi ym maes fferylliaeth gymunedol. Ar ôl cynnal arolwg â llaw o'r gweithlu fferylliaeth gymunedol yn 2019, [18] fe wnaethom argymell bod System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd am y Gweithlu, a ddefnyddir i fapio'r gweithlu practisau cyffredinol, yn cael ei hehangu i gynnwys fferylliaeth gymunedol fel mater o flaenoriaeth. Mae'r adnodd wrthi'n cael ei roi ar waith, a chyn hir bydd yn darparu'r darn coll mwyaf arwyddocaol o'n darlun o'r gweithlu.

Mae tua 25% o'n gweithlu fferylliaeth i'w gweld yng Nghofnod Staff Electronig y GIG. Mae ansawdd y data yn y fan yma yn gymharol uchel, oherwydd ymarferion glanhau data cylchol dros y degawd diwethaf. Mae adnoddau newydd ar gyfer delweddu data, sy'n cael eu treialu yn AaGIC, yn dangos y cynnydd yn niferoedd y gweithwyr fferylliaeth ers dechrau cofnodi. [19] Fodd bynnag, nid ystyrir bod y cynnydd hwn wedi cyd-fynd â'r galw, ac yn ystod haf 2023 byddwn yn cyhoeddi Data Swyddi Gwag y GIG am y tro cyntaf, fel darn newydd arall o'r jig-so.

Mae System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd am y Gweithlu yn cofnodi niferoedd y gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth a chyfraddau swyddi gwag ers 2020. Mae'r adnodd hwn wedi cofnodi 38% o gynnydd yn nifer y fferyllwyr mewn practisau cyffredinol (o 121 i 167) dros 3 blynedd gyntaf y cofnodion. Roedd nifer y technegwyr fferyllol yn y sector hefyd wedi cynyddu 41% yn yr un cyfnod (o 38 i 64). Mewn cymhariaeth, cynyddodd gweithlu fferyllwyr y GIG ar gyfradd lawer is o 10% (o 908 i 1003) dros yr un cyfnod, a chynyddodd nifer y technegwyr fferyllol 14% (o 710 i 811) a staff cymorth fferylliaeth 13% (o 279 i 316). Does dim data ar gael ar gyfer y gweithlu fferylliaeth gymunedol. Ni chynlluniwyd ar gyfer y rolau newydd mewn practisau cyffredinol drwy gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn hyfforddiant, ac felly mae'r aelodau cofrestredig wedi symud o sectorau eraill i'r rolau hyn.

Mae data tueddiadau'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol [20] yn dangos twf bach o ran nifer y gweithwyr fferyllol sy'n aelodau cofrestredig ar draws gwledydd y DU dros y 5 mlynedd diwethaf, a Chymru sydd â'r cyfraddau twf isaf ar gyfer y ddau grŵp proffesiynol.

| Gwlad | Cynnydd canrannol yn nifer y fferyllwyr | Cynnydd canrannol yn nifer y technegwyr fferyllol |
|---|---|---|
| **Lloegr** | 11 | 8 |
| **Yr Alban** | 9 | 12 |
| **Cymru** | 7 | 4 |

*Data Tueddiadau Cofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2019-2023*

Mae'r unig ddata sydd ar gael ar sgiliau Cymraeg y gweithlu fferylliaeth wedi cael ei gofnodi yn ein Harolwg o'r Gweithlu Fferylliaeth Gymunedol yn 2019. [(18)] O ran y gweithlu fferylliaeth gymunedol, dywedodd 11% o'r staff eu bod yn gallu darllen, ysgrifennu a

siarad Cymraeg, mewn cymhariaeth ag 8% yng ngweithlu'r GIG ar y pryd a oedd wedi hunanddatgan eu gallu. Roedd dadansoddiad o ddosbarthiad y siaradwyr Cymraeg y tu hwnt i gwmpas y cynllun.

Mae data gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol, [21] Cofnod Electronig y GIG [19] a System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd am y Gweithlu yn dangos gweithlu benywaidd iawn, sydd hefyd yn debygol o gael ei adlewyrchu yn y gweithlu fferylliaeth gymunedol. Cofnododd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol hefyd yn 2019 [21] fod gan tua hanner ein holl aelodau cofrestredig gyfrifoldebau gofalu.

Mae cyfradd gyfranogi gymedrig y gweithwyr fferyllol sy'n aelodau cofrestredig yn tueddu i fod yn eithaf uchel, gyda 75% o dechnegwyr fferyllol a 77% o fferyllwyr yn dweud eu bod yn gweithio'n llawn amser. [21] Er mwyn cynyddu'r amser yn y gwaith i hyfforddi, ymchwilio ac arwain, mae'n debygol y bydd angen i ni gynyddu ein gweithlu fferylliaeth ymhellach er mwyn cynnal lefelau presennol y gwasanaeth. Mae gennym fwy o waith i'w wneud i asesu sut bydd technoleg a ffyrdd newydd o weithio yn rhyddhau amser ar gyfer grwpiau staff y gellir ei ailneilltuo i flaenoriaethau eraill.

Mae tystiolaeth yn ein prosesau Cynllunio Tymor Canolig Integredig yn dangos bod rhai Byrddau Iechyd yn dechrau defnyddio eu data am y gweithlu i ddadansoddi proffil oedran y gweithlu fferylliaeth er mwyn cynllunio ar gyfer ymddeoliadau. Gwelir rhywfaint o dystiolaeth bod gweithlu cymharol ifanc (<45 oed) yn dod drwodd mewn practisau cyffredinol, gyda dadansoddiadau pellach eto i'w cwblhau.

Am ein gweithlu staff cymorth fferylliaeth rydym yn gwybod lleiaf, gan fod y rhan fwyaf yn cael eu cyflogi ym maes fferylliaeth gymunedol. Mae cyflogwyr yn dweud wrthym fod gan lawer o staff cymorth yn y gymuned ac mewn ysbytai y potensial i symud ymlaen i rolau proffesiynol, gyda chymorth rhaglen 'Access to' i gyflawni gofynion mynediad ein rhaglen ar gyfer technegwyr fferyllol cyn-cofrestru. Mae'n bwysig codi proffil rôl y technegydd fferyllol gan ein bod wedi dechrau gweld nifer y ceisiadau ar gyfer y swyddi hyn yn gostwng, sy'n arwain at gyfraddau llenwi sy'n is nag y dylent fod.

Mae gennym waith i'w wneud i gadw mwy o'n fferyllwyr dan hyfforddiant yn y gweithlu yng Nghymru. Byddai mynd ati'n gynnar i hysbysebu ein rhaglen Sylfaen Ôl-gofrestru yn gymhelliad mawr. Gydag amser datblygu wedi'i ddiogelu yn y gwaith, goruchwyliaeth glinigol, a llwybr at bresgripsiynu annibynnol, gallai fod yn adnodd cryf i gadw staff gyda chyfleoedd dilynol ar gyfer datblygiadau mwy arbenigol a ariennir.

## 4.3 Ymchwil

Mae gwasanaethau llyfrgell y GIG wedi ein helpu i chwilio am ddeunyddiau darllen ac i ddod o hyd i 40 o bolisïau a chyhoeddiadau o Gymru, y DU ac yn rhyngwladol a oedd yn ymwneud â'r gweithlu fferylliaeth ac iechyd. Cafodd y rhain eu hadolygu, ac mae ein dogfen Ymchwil yn crynhoi eu perthnasedd. [22] Drwy gydol y cyfnod ymgysylltu, mae rhanddeiliaid wedi tynnu sylw at ymchwil a pholisïau ychwanegol, ac rydym ninnau wedi'u hadolygu ac wedi'u hychwanegu at y set ddata lle bo hynny'n briodol.

Roedd y themâu yn y deunyddiau darllen yn cyd-fynd â'r themâu a oedd yn dod i'r amlwg drwy'r gwaith ymgysylltu â'n rhanddeiliaid. Yng nghyd-destun prinder yn y gweithlu: -

- Pwysigrwydd ymyriadau i fynd i'r afael â llesiant gwael ymysg y gweithlu, a risg uchel o orweithio ar draws y gweithlu fferylliaeth
- Lle bynnag y mae meddyginiaethau yn rhan fawr o ofal, mae angen i dimau fferylliaeth fod yn rhan annatod o'r llwybr gofal

- Mae gallu'r gweithlu fferylliaeth i arwain ar faterion meddyginiaethau yn gofyn am fuddsoddiad mewn technoleg gydgysylltiedig sy'n cefnogi ffyrdd clyfar o weithio a galluoedd digidol
- Mae defnyddio fframweithiau datblygu gyrfa, datblygiadau arweinyddiaeth, hyfforddiant aml-ddisgyblaeth ac aml-sector, ac ymchwil ymarfer fel nodweddion cyffredin ym mywyd gwaith mwy o aelodau timau fferylliaeth yn arwain at gwerth gwirioneddol, o ran ymgysylltu â'r gweithlu a datblygu gwasanaethau.

Yng Nghymru yn benodol, mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr, a'r gwaith diweddar i adnewyddu nodau Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach ar gyfer 2025, yn creu momentwm go iawn am newid cadarnhaol ar y cyd ar draws y system. Mae'r cynllun strategol hwn ar gyfer y gweithlu fferylliaeth yn darparu cymorth ychwanegol ar gyfer y newidiadau angenrheidiol mewn diwylliant, drwy arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol.

## 4.4 Ymgynghori ar ein Cynllun drafft

Cafodd ymgynghoriad ar y camau gweithredu yn ein cynllun ei gynnal rhwng 20 Chwefror a 2 Ebrill 2023. Cynhaliwyd arolwg ar-lein, ynghyd â chyfres o weithdai ymgynghori agored a chyfarfodydd â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn rhoi amrywiaeth o gyfleoedd i ymgysylltu. Roedd ymatebion Cymraeg a Saesneg yn cael eu hannog. Yn unol â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, roeddem wedi gofyn am sylwadau ychwanegol am unrhyw gynnwys neu ystyriaethau sy'n ymwneud ag unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol posibl ar ein gweithlu sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig.

Cafodd ein hymgynghoriad 73 o ymatebion ffurfiol, yn ogystal â mewnbwn 66 o unigolion drwy ein digwyddiadau ymgynghori. Cafodd 15 neges a roddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol yn ystod y cyfnod ymgynghori o 6 wythnos eu gweld 15,600 o weithiau, gyda dros 400 o bobl yn ymwneud â'r negeseuon, a chafwyd dros 700 o ymweliadau â'r wefan.

Mae ein gweithlu a'n partneriaid wedi ymateb yn glir ac yn unedig yn ystod y gwaith o ddatblygu ac ymgynghori ar y cynllun hwn. Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, roedd y sgôr cytuno'n gyffredinol yn uchel iawn, sef 83%, gyda 10% arall yn cytuno'n rhannol â 31 o gamau gweithredu.

Bydd gweithredu'r 31 cam gweithredu yn y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yn sicrhau'r newidiadau sy'n wirioneddol bwysig i aelodau'r gweithlu fferylliaeth a'r rheini sy'n gweithio gyda'r gweithlu, a bydd yn rhoi'r gweithlu mewn sefyllfa lle gall wella'r gwasanaethau tosturiol sydd ar gael i bobl.



# 5: Ein huchelgais

Fel y corff gweithlu strategol ar gyfer GIG Cymru, ein cyfrifoldeb ni yw ‘**Trawsnewid y Gweithlu ar gyfer Cymru Iachach**’. Mae arnom angen gweithlu sy’n gallu darparu’n gynaliadwy mewn amgylchedd sy’n newid yn gyflym.

Y dull y mae AaGIC yn ei ddefnyddio i sbarduno’r broses o drawsnewid holl weithlu’r GIG yw gweithio gyda’n partneriaid i roi’r **Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol** [2] ar waith yn yr holl gynlluniau strategol.


Mae gan y strategaeth saith thema lefel uchel, ac mae’n darparu fframwaith sy’n berthnasol i bawb ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Drwy fethodoleg gyson – sef **‘Developing a Strategic Workforce Plan the HEIW Way’** [23] fel yr ydym ni’n ei disgrifio – mae’r holl gynlluniau strategol ar gyfer y gweithlu yn gydnaws â’i gilydd. Mae ein dull gweithredu’n golygu bod yr ‘edau aur’ pwysig, sef y Gymraeg, cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiant yn cael eu cynnwys bob amser, yn ogystal â rôl GIG Cymru i gefnogi’r economi sylfaen.




Wrth i bob cynllun strategol unigol ar gyfer y gweithlu gael ei gyhoeddi a’i weithredu, gallwn ddisgwyl gweld newidiadau pwysig, gydag effeithiau a fydd yn parhau ar draws y system. Oherwydd y ffordd systematig rydym yn defnyddio **Strategaeth y Gweithlu**, gallwn fod yn dawel ein meddwl ein bod yn symud pob rhan o’r system i’r un cyfeiriad, ar yr un daith.

Pen y daith yw sefyllfa newydd lle mae’r gweithlu wir yn teimlo bod eu llesiant yn gwbl ganolog i’n cynlluniau ar gyfer y gweithlu, a hynny o fewn diwylliant tosturiol sy’n eu helpu i ddarparu gofal tosturiol.

## Aliniad Rhwng Cynlluniau Gweithlu Strategol




Roedd ein cynllun cyntaf, y **Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol** [24] a lansiwyd yn 2022, yn cynnwys rolau a thimau fferylliaeth. Mae'n cynnwys llawer o gamau gweithredu sy'n mapio'n uniongyrchol i'r **Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth**.

Rydym yn cydnabod bod tri chwarter y gweithlu fferylliaeth yn cael eu cyflogi gan gontractwyr y GIG ym maes gofal sylfaenol, felly rydym yn cydnabod bod llawer o'n deunyddiau ymgysylltu a llawer o gamau gweithredu'r cynllun hwn yn berthnasol wrth ddatblygu ein **Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol.** [25] Mae ein canfyddiadau hefyd yn cael eu rhannu ar draws cynlluniau deintyddiaeth, optometreg a nyrsio.

Mae ein huchelgeisiau lefel uchel sy'n benodol i'r gweithlu fferylliaeth ar gyfer 2030 wedi'u rhestru isod o dan y saith thema hyn, a gafodd eu llunio ar sail ein gwaith ymgysylltu ac ymgynghori. Bydd cyfres o gynlluniau gweithredu yn cael eu datblygu i fwrw ymlaen â chamau gweithredu penodol i wireddu'r uchelgais a chyflawni'r strategaeth.

| THEMA | DISGRIFYDD |
|---|---|
| **1. Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach** | Bydd pawb yn y gweithlu fferylliaeth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi lle bynnag maen nhw'n gweithio. |
| **2. Denu a Recriwtio** | Bydd holl rolau'r tîm fferylliaeth yn amlwg iawn, a bydd y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill yn eu deall yn dda. Bydd llwybrau gyrfa clir ar gyfer fferylliaeth ar gael i bob rôl ym mhob sector. |
| **3. Modelau Gweithlu Di-dor** | Bydd newidiadau mewn diwylliant yn golygu bod sgiliau uwch y gweithlu fferylliaeth yn cael eu cyfuno'n fwy cyflawn â thimau amlbroffesiwn o wahanol asiantaethau, er mwyn darparu'r gofal gorau. |
| **4. Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol** | Bydd galluoedd digidol y gweithlu fferylliaeth wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n helaeth i'n helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl gan ddefnyddio'r datblygiadau diweddaraf ym maes technoleg. |
| **5. Addysg a Dysgu Rhagorol** | Bydd y buddsoddiad mewn addysg a datblygu ar gyfer timau fferylliaeth yn darparu'r sgiliau a'r galluoedd y mae eu hangen ar y gweithlu er mwyn gofalu am bobl Cymru. |
| **6. Arweinyddiaeth ac Olyniaeth** | Gan ddefnyddio egwyddorion arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol, bydd ein timau fferylliaeth yn gweithio'n effeithiol i arwain yr agenda meddyginiaethau er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel. |
| **7. Cyflenwad a Siâp y Gweithlu** | Bydd gennym weithlu fferylliaeth sy'n gynaliadwy ac yn amrywiol, gyda digon o niferoedd i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth. |

# 6: Sut bydd ein gweithlu'n edrych yn y dyfodol?

Mae ein rhanddeiliaid wedi disgrifio sut bydd rolau'r gweithlu fferylliaeth yn edrych yn y dyfodol, ac mae rhai ohonyn nhw'n cael eu crynhoi yn y tabl isod a'u hategu mewn deunyddiau darllen.

## Safbwyntiau Rhanddeiliaid ar Rolau Fferylliaeth y Dyfodol

| | | |
|---|---|---|
| Mae gan weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth fwy o bresenoldeb mewn timau clinigol ac mae ganddynt lwyth achosion clinigol | Mae fferyllwyr yn defnyddio sgiliau Presgripsiynu Annibynnol fel mater o drefn, ar ôl cael eu rhyddhau gan dechnoleg, technegwyr fferyllol cymwys a staff cymorth | Mae timau fferylliaeth yn gwneud gwaith ym maes genomeg a Chynhyrchion Meddyginiaeth Therapi Uwch 'prif ffrwd' |
| Mae gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth yn ddarparwyr gofal mewn llwybrau clinigol sy'n cael eu gwella gan dechnoleg (ee, deallusrwydd artiffisial a theleiechyd) | Mae gwell dealltwriaeth o rolau fferylliaeth yn arwain at ryngweithio gwahanol â'r cyhoedd ac eraill ym maes iechyd a gofal | Mae mwy o rolau yn y cartref, sy'n golygu bod llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd meddyginiaethau, yn enwedig technegwyr fferyllol |
| Mae aelodau'r tîm fferylliaeth yn cyfrannu fel mater o drefn at hyfforddiant proffesiynol ar gyfer eu gweithwyr iechyd a gofal eu hunain a gweithwyr iechyd a gofal eraill | Mae'r gweithlu proffesiynol yn weithlu cyffredinol yn bennaf, ond mae ganddyn nhw lwybrau clir at arbenigaeth glinigol ac ymarfer ymgynghorol | Derbynnir bod rolau aml-sector a phortffolio yn arwain at fanteision i ddefnyddwyr gwasanaeth a'r gweithlu |
| Mae ambell rôl sy'n berthnasol i weithwyr cymorth yn golygu eu bod yn dod wyneb yn wyneb ag unigolion (diagnosteg/ brechiadau), neu'n cysoni meddyginiaethau lle mae galw o hyd am hynny<br><br>Mae rhai gweithleoedd yn cael eu harwain gan weithwyr cymorth, gan gynnwys rheoli dyfeisiau storio meddyginiaethau | Mae e-bresgripsiynu a thechnoleg yn golygu bod modd blaenoriaethu'r 'angen mwyaf yn gyntaf' a bod mwy o 'amser i ofalu', ac mae mwy a mwy o atebion robotig ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau | Mae angen cymwysterau fferylliaeth cyffredinol i ddarparu gofal y GIG ym mhob sector (Lefel Sylfaen Ôl-gofrestru, Uwch ac Ymgynghorydd) |

Gyda phartneriaid, rydym wedi nodi camau gweithredu penodol yn y cynllun hwn sy'n dod at ei gilydd i wneud gwahaniaeth i'n gweithlu. Mae'r adran hon yn disgrifio rhai o'r gwahaniaethau a fydd yn wynebu ein gweithlu wrth i gynllun y gweithlu gael ei roi ar waith.

## 1 - Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach

Wrth i aelodau'r tîm fferylliaeth gael cefnogaeth i gael mwy o effaith yn eu rolau arwain gyda meddyginiaethau, byddan nhw'n **ymgysylltu mwy ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fwy wrth gyflawni eu rolau**. Bydd hyn yn arwain at **welliannau mesuradwy yn llesiant y gweithlu**.

## 2 - Denu a Recriwtio

Ar ôl i'r cynllun strategol ar gyfer y gweithlu fferylliaeth gael ei roi ar waith bydd ein cydweithwyr, y cyhoedd **a myfyrwyr yn ein holl ysgolion yn fwy ymwybodol yn iau o rolau fferylliaeth**. Wrth i ni gynyddu ein sylfaen dystiolaeth am yr hyn sy'n denu pobl i rolau fferylliaeth, byddwn yn defnyddio hyn i **ddenu pobl o amrywiaeth ehangach o grwpiau a chefndiroedd, gan adlewyrchu'r poblogaethau rydym yn eu gwasanaethu**. Bydd hyn yn adeiladu ar waith ehangu mynediad sydd eisoes wedi cychwyn ar y cyd â'n prifysgolion.

Mewn **ardaloedd gwledig, mae rolau fferylliaeth yn debygol o gael eu haddasu** wrth i adnoddau prin gael eu defnyddio mewn ffyrdd sy'n sicrhau'r gwerth gorau posibl i bobl yn yr ardaloedd hynny. Bydd gennym fesurau pwrpasol ar waith, nid yn unig i **gynyddu'r gweithlu fferylliaeth ar lawr gwlad mewn cymunedau gwledig,** ond hefyd i **helpu'r rheini sy'n cyrraedd ardaloedd gwledig i ymgartrefu a gweld y manteision personol a chymdeithasol** sy'n deillio o fyw mewn rhannau gwledig o Gymru.

Wrth i gyflogwyr gynllunio i **fwy o'r gweithlu gael rolau portffolio**, neu amser ar gyfer gweithgareddau ymchwil, arwain a hyfforddiant, byddant yn **lleihau'r angen i'r gweithlu newid swydd er mwyn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol** i gyflawni fframweithiau datblygu gyrfa. Bydd proffil amgylcheddau sy'n weithgar o safbwynt ymchwil hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddenu a chadw staff.

Bydd y broses o gamu ymlaen yn eich gyrfa yn seiliedig ar gymhwysedd, sy'n gofyn am gymwysterau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a'r cymwysterau cyfatebol ar gyfer technegwyr fferyllol. Mae'r **rolau hyn sy'n seiliedig ar gymhwysedd yn darparu llwybr at becynnau cydnabyddiaeth mwy cymharol** rhwng cyflogwyr.

Mae timau fferylliaeth eisoes wedi bod yn addasu'n gadarnhaol ac yn hyblyg i newidiadau, gan symud yn gyflym a chynnal nodweddion diogelwch allweddol systemau ar yr un pryd. Bydd dyfodol mwy digidol i'r ddarpariaeth gofal iechyd, a drefnir o amgylch gofal a diogelwch pobl, yn **golygu bod ffyrdd ychwanegol o weithio yn cael eu creu'n barhaus.** Bydd cyfleoedd newydd yn cael eu defnyddio i greu **opsiynau gweithio mwy hyblyg** ac amgylcheddau gwaith iach i'n timau.

## 3 - Modelau Gweithlu Di-dor

Lle bynnag y bydd meddyginiaethau'n rhan o ofal, bydd mewnbwn o safbwynt fferylliaeth yn cael ei ddarparu o **safle sydd wedi'i integreiddio'n llwyr yn y tîm amlddisgyblaethol**.

Mae mwy o gysondeb rhwng sgiliau fferylliaeth ar draws pob sector, ynghyd â **negeseuon clir, yn golygu y bydd y cyhoedd, yn y dyfodol, yn teimlo'n fwy hyderus am ddilyn y llwybr mwyaf priodol at feddyginiaethau**. Wrth i ni gydnabod a chefnogi mwy o ryngddibyniaethau rhwng gwahanol gontractwyr ym maes gofal sylfaenol a rhwng rhyngwynebau gofal iechyd eraill, bydd **gweithgarwch ein gweithlu yn datblygu i fod yn fwy cydgysylltiedig**.

# 4 - Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol

Wrth i ni ddechrau deall i ba raddau y bydd rolau fferylliaeth yn cael eu trawsnewid drwy ddatblygiadau digidol a thechnolegol, mae AaGIC wedi bod yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu fframwaith galluogrwydd digidol. [26] Bydd yr adnodd hunanwerthuso hwn yn rhoi cyfle i unigolion ddeall a **datblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau angenrheidiol i'w helpu i lwyddo yn yr amgylchedd digidol**.

Bydd rhwydwaith **Hyrwyddwyr Digidol AaGIC, sy'n arwain ac yn dylanwadu ar y gwaith o drawsnewid i fod yn weithlu digidol, yn cael ei ymestyn i gynnwys aelodau'r tîm fferylliaeth**. Bydd rhwydwaith cymheiriaid yn cael ei sefydlu, a bydd pob math o hyfforddiant ac adnoddau ar gael i Hyrwyddwyr Digidol, gan gynnwys cyfleoedd i gael addysg ffurfiol. [27]

Bydd gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth sydd â sgiliau gwybodeg ddigidol uwch yn **sicrhau ansawdd a diogelwch wrth ddigideiddio systemau a phrosesau ar gyfer defnyddio meddyginiaethau**, er enghraifft drwy botensial rolau Prif Swyddog Gwybodaeth Fferyllol.

# 5 - Addysg a Dysgu Rhagorol

Rydym ar fin cael set gyflawn o **fframweithiau gyrfa gweladwy a hygyrch ar gyfer ein holl weithlu fferylliaeth**. Bydd termau yn dod yn gyfarwydd iawn a bydd dealltwriaeth dda ohonynt; llwybrau 'Access to' ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn aelodau cofrestredig; fframweithiau lefel Sylfaen Ôl-gofrestru ac Uwch ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol ym maes fferylliaeth; a lefel Ymgynghorydd ar gyfer y fferyllwyr clinigol mwyaf datblygedig.

Wrth i'r fframweithiau datblygu gyrfa hyn – y darperir adnoddau ar eu cyfer yn ganolog – gael eu gweithredu'n gyson gan ein partneriaid ar draws pob sector, bydd hynny'n helpu i sicrhau **'parch cyfartal' gwirioneddol rhwng rolau fferylliaeth cymharol mewn unrhyw sector.**

Drwy weithio gyda'n darparwyr hyfforddiant ac Ysgolion Fferylliaeth, bydd AaGIC yn **sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o dimau fferylliaeth yn fedrus iawn yn ddigidol**. Bydd gwybod y diweddaraf am ddatblygiadau technolegol fel genomeg, cynhyrchion meddyginiaeth therapi uwch a deallusrwydd artiffisial, gyda'r ystyriaethau cysylltiedig o safbwynt moeseg a diogelwch cleifion, yn golygu hyfforddiant ôl-radd **a dysgu gydol oes ar gyfer ein holl weithwyr proffesiynol.**

I fynd i'r afael â'r cyfyngiadau presennol o ran datblygu gweithwyr proffesiynol y dyfodol ym maes fferylliaeth, **bydd lleoliadau ar-lein – fel un ateb i ategu dulliau hyfforddi wyneb yn wyneb – yn cael eu defnyddio cymaint â phosibl**, ynghyd â chynyddu ein cronfa o oruchwylwyr a hyfforddwyr. Bydd hyn yn amodol ar werthusiad ac adborth cadarn.

Mae 'Mwy na Geiriau' [28] yn cydnabod pwysigrwydd gallu ymateb i anghenion ieithyddol y boblogaeth. Bydd y gweithlu fferylliaeth yn cael **cefnogaeth i adnabod siaradwyr Cymraeg a defnyddio ymadroddion sylfaenol i'w cyfarch, ac i wybod beth i'w wneud os oes angen gwasanaethau Cymraeg mwy arbenigol**. Byddwn yn **helpu holl aelodau'r tîm sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau Cymraeg**, neu sydd eisiau eu hehangu, i wella.

# 6 - Arweinyddiaeth ac Olyniaeth

Mae'r gweithlu proffesiynol ym maes fferylliaeth wedi bod yn aeddfedu, ac yn **barod i ymgymryd â'u rôl arwain mewn perthynas â meddyginiaethau** – mae GIG Cymru angen hynny ar frys.

Ni ellir gorbwysleisio rôl arweinyddiaeth o ran cyfrannu at lwyddiant Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ffordd rydym yn **ymwreiddio diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol ar draws GIG Cymru**. Mae'r dull hwn o weithredu, a ddatblygwyd gan yr Athro Michael West, Kings Fund[29] eisoes yn darparu'r sylfeini ar gyfer arweinyddiaeth ym maes iechyd a gofal mewn rhannau eraill o'r DU ac Iwerddon. Gwelir tystiolaeth glir o'r cysylltiad rhwng y dulliau gweithredu hyn a manteision i lesiant y gweithlu ac ansawdd y gofal.

**Byddwn yn cynorthwyo'r gweithlu fferylliaeth sy'n ymgymryd â rolau arweinyddiaeth glinigol ac anghlinigol mewn timau amlddisgyblaethol.** Yn y dyfodol, bydd gennym gronfa ddigonol o weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth sydd â phrofiad o arwain er mwyn llenwi swyddi gwag uwch ym maes fferylliaeth a gofal iechyd.

**Bydd Cymrodyr Arweinyddiaeth AaGIC, gan gynnwys y rheini sydd â ffocws digidol, yn parhau ac yn derbyn anogaeth.**

# 7 - Cyflenwad a Siâp y Gweithlu

Ar draws y system iechyd a gofal, rydym yn dysgu sut mae angen i ni gynllunio i gael model mwy cynaliadwy ar gyfer gweithlu fferylliaeth sydd â **chymysgedd amrywiol o sgiliau, er mwyn manteisio'n llawn ar sgiliau uwch pob aelod o'r tîm fferylliaeth** fel rhan annatod o'r tîm amlddisgyblaethol.

Cyn bo hir, byddwn yn gweld holl siâp a maint y gweithlu fferylliaeth i gyd, lle bynnag maen nhw'n darparu gwasanaethau'r GIG, a hynny o ganlyniad i System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd am y Gweithlu, Cofnod Staff Electronig y GIG yn ogystal â datblygu ein hadnodd Ffrwd Addysg i Gyflogaeth. Byddwn yn casglu'r data hwn at ei gilydd i roi gwybodaeth am dueddiadau ym mhatrymau'r gweithlu fferylliaeth. **Byddwn yn gallu mesur effaith ein strategaethau comisiynu, denu, recriwtio a chadw staff, a gwneud penderfyniadau gwell sy'n seiliedig ar ddata.**

Mae gan AaGIC amrywiaeth o adnoddau cynllunio'r gweithlu, a byddwn yn cynnwys fferylliaeth mewn rhwydweithiau amlbroffesiwn lle bydd modd meithrin sgiliau a gwneud y cysylltiadau angenrheidiol er mwyn hybu'r broses o integreiddio aelodau'r tîm fferylliaeth yn y gweithlu gofal iechyd cyflawn.






# 7: Y Camau Gweithredu

Nesaf y mae set o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt, wedi'u grwpio fesul thema Strategaeth y Gweithlu, a ddatblygwyd gyda'n rhanddeiliaid drwy ymgysylltu ac ymgynghori, mewn gwir ysbryd o gydweithio.

| | |
|---|---|
| 1. Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach | Erbyn 2030, bydd y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu gwobrwyo a'u cefnogi lle bynnag y maent yn gweithtio. |
| 2. Denu a Recriwtio | Erbyn 2030, bydd iechyd a gofol cymdeithasol wedi'u sefydlu'n dda fel brand cryf a hawdd ei adnabod a'r sector o ddewis i'n gweithlu yn y dyfodol. |
| 3. Modelau Gweithlu Di-dor | Erbyn 2030, modelau gweithlu amlbroffesiwn ac aml-asiantaeth fydd y norm. |
| 4. Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol | Erbyn 2030, bydd galluoedd digidol a thechnolegol y gweithlu wedi'u datblygu'n dda ac yn cael eu defnyddio'n helaeth i wneud y gorau o'n ffordd o weithio, er mwyn ein helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl. |
| 5. Addysg a Dysgu Rhagorol | Erbyn 2030, bydd y buddsoddiad mewn addysg a dysgu ar gyfer gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn darparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl yng Nghymru yn y dyfodol. |
| 6. Arweinyddiaeth ac Olyniaeth | Erbyn 2030, bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol. |
| 7. Cyflenwad a Siâp y Gweithlu | Erbyn 2030, bydd gennym weithlu cynaliadwy mewn niferoedd digonol i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth. |

# Thema 1 – Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach

**Erbyn 2030, bydd pawb yn y gweithlu fferylliaeth yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi lle bynnag maen nhw'n gweithio**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Mae angen i ni fynd ati ar fyrder i leihau'r gyfradd y mae gweithwyr yn gadael y gweithlu fferylliaeth er mwyn sefydlogi'r sefyllfa bresennol ac adeiladu arni.
- Mae diwylliant o weithio eithafol wedi datblygu ym maes fferylliaeth am resymau fel: baich gwaith wedi dwysáu, diwrnodau gwaith hir, wythnosau gwaith hir, diffyg seibiannau i gael gorffwys, a phrinder gweithwyr locwm.
- Mae lefelau uchel o swyddi gwag ym mhob sector, ac achosion o gau fferyllfeydd cymunedol heb gynllunio ar gyfer hynny – oherwydd absenoldeb Fferyllydd Cyfrifol – yn gwaethygu pwysau llwyth gwaith y rheini sy'n dal yn y system, sy'n cael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant y gweithlu.
- Gall rhwystredigaeth defnyddwyr gwasanaeth gyda systemau iechyd arwain at ymddygiad ymosodol tuag at dimau fferylliaeth sy'n gweithio ar y rheng flaen.
- Mae staff yn gadael y swyddi sydd â'r gyfran uchaf o amser yn delio â'r cyhoedd, gan fod y rolau hyn mor anodd yn gorfforol ac yn feddyliol i'w gwneud yn llawn amser. Bydd darparu amser ar gyfer tasgau hanfodol eraill fel cyfarfodydd tîm, rhoi newid ar waith, gwella gwasanaethau, datblygu eich hun a'r tîm yn help er mwyn cadw staff.
- Mae'r diwylliant presennol yn ffafrio rhyddhau staff ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau'n uniongyrchol – ee, brechiadau a phresgripsiynu annibynnol. Mae'n anoddach sicrhau amser ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud ag arwain, hyfforddiant ac ymchwil oherwydd diffyg dealltwriaeth o fanteision hynny i'r cyflogwr ac i ddefnyddwyr gwasanaeth drwy gynyddu ymgysylltiad staff.
- Nid yw'r defnydd o gyllid datblygu canolog ar gyfer timau fferylliaeth – wedi'i sicrhau drwy Gynllun Addysg a Hyfforddiant AaGIC – wedi bod cystal ag y dylai oherwydd diffyg amser datblygu neilltuedig, neu oherwydd nad oes modd rhyddhau unigolion gan nad oes digon o weithwyr eraill i gymryd eu lle.
- Pan roddwyd amser datblygu wedi'i neilltuo i fferyllwyr cymunedol, dangosodd ein cynllun peilot bod hyn wedi arwain at ehangu eu cwmpas ymarfer a'r ystod o wasanaethau a gynigiwyd gan eu fferyllfeydd. Pe baent heb gael eu rhyddhau yn ystod amser gwaith, ni fyddent wedi ymgymryd â'r gwaith datblygu, neu byddai gwneud hynny yn eu hamser eu hunain wedi cael effaith negyddol ar eu llesiant.

# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 1** | **Gyda phartneriaid, cytuno ar amrywiaeth o gamau gweithredu i'w rhoi ar waith, sy'n gwella iechyd meddwl a llesiant y gweithlu fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Mae fferyllwyr, technegwyr fferyllol a staff cymorth yn gweithio mewn rôl sy'n hanfodol i ddiogelwch. Mae bod wedi blino neu beidio â chanolbwyntio yn gallu arwain at ganlyniadau difrifol i'r cyhoedd, os bydd camgymeriad yn cael ei wneud. Rhaid i amgylcheddau a threfniadau gweithio iach gynnwys seibiannau sy'n rhoi cyfle priodol i staff orffwys, ac efallai y bydd angen gwaith cydlynu rhwng timau Byrddau Iechyd neu Glystyrau Gofal Sylfaenol er mwyn cynnal mynediad at wasanaethau |
| **Cam Gweithredu 2** | **Datblygu canllawiau cynllunio swyddi fferylliaeth a phecyn cymorth a fydd yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran darparu gwasanaethau, datblygu eich hun ac eraill, arweinyddiaeth, ymchwil ac arloesi pan fydd cyflogwyr yn eu rhoi ar waith** |
| **Disgrifiad** | Mae'r broses cynllunio swyddi yn cydnabod yr angen i ddatblygu pobl a sefydliadau ochr yn ochr â digon o gapasiti i ddarparu gwasanaethau. Er mwyn helpu i drawsnewid a defnyddio fframweithiau datblygu gyrfa, bydd cynlluniau gwaith yn cael eu datblygu ar gyfer pob rôl yn y tîm fferylliaeth sy'n darparu gwasanaethau'r GIG, a bydd AaGIC yn monitro'r cynnydd a wnaed i'w rhoi ar waith |
| **Cam Gweithredu 3** | **Bydd Arolwg Staff y GIG, neu arolwg cyfatebol, yn cael ei ymestyn i gynnwys y rheini sy'n gweithio i gontractwyr y GIG yn ogystal â'r rheini a gyflogir gan y GIG, er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed o ran ymgysylltiad, profiad a llesiant staff** |
| **Disgrifiad** | Drwy ymestyn Arolwg Staff y GIG y tu hwnt i'r rheini a gyflogir gan y GIG er mwyn cynnwys y rheini sy'n gweithio i gontractwyr y GIG yn y gweithlu fferylliaeth, gallwn gyflwyno dull cyson o fonitro a mesur profiadau gweithwyr. Bydd hyn yn cynnwys sgôr mynegai ymgysylltu parhaus sy'n ein galluogi i nodi profiadau staff ar draws gwahanol leoliadau, grwpiau proffesiynol a nodweddion gwarchodedig |
| **Cam Gweithredu 4** | **Dylid adolygu a datblygu'r catalog electronig, 'Catalogue of Workforce Solutions', [16] sef casgliad dibynadwy o ymyriadau i leihau'r pwysau ar y gweithlu fferylliaeth.** |
| **Disgrifiad** | Mae'r catalog hwn yn gasgliad o ymyriadau, sydd eisoes wedi cael eu profi yng Nghymru, a all leihau pwysau difrifol ar y gweithlu wrth ddarparu gwasanaethau fferylliaeth y GIG. Mae'r atebion hyn yn cael eu cofnodi mewn catalog digidol, sydd ar gael i'r holl randdeiliaid. Bydd y catalog dan ofal AaGIC hyd at fis Mawrth 2024, pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud ar ddefnydd/buddsoddiad pellach fel dull o rannu arferion da |

# Thema 2 – Denu a Recriwtio

**Erbyn 2030, bydd llwybrau gyrfa fferylliaeth clir ar gael ym mhob sector. Bydd pob rôl yn y tîm fferylliaeth yn weladwy iawn ac yn cael ei deall yn dda gan y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol eraill**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Mae apêl rolau yn y maes fferylliaeth yn gysylltiedig â nifer o'r camau gweithredu yn y cynllun hwn
- Er mwyn denu plant ysgol ac eraill sy'n ystyried gyrfa ym maes iechyd, mae angen deunyddiau sydd ar gael yn rhwydd. Rhaid i'r rhain roi hyder i gynghorwyr gyrfa a denu gweithlu amrywiol, sy'n adlewyrchu pobl a chymunedau Cymru
- Mae angen i Gymru fod yn fwy amlwg ar lefel y DU o safbwynt y rolau gwahaniaethol a deniadol sydd ar gael, fel bod modd eu marchnata'n rhwydd ar adegau allweddol mewn gyrfaoedd ym maes fferylliaeth
- Mae angen ymchwil ansoddol i ddeall beth mae gweithlu'r dyfodol yn ei ystyried yn gynnig deniadol am swydd, ac mae angen rhannu'r hyn a ddysgir gyda chyflogwyr
- Er mwyn helpu i gadw staff, mae angen atebion i gau'r bylchau rhwng y galw ymysg y gweithlu am swyddi hyblyg a'r patrymau gweithio sy'n angenrheidiol mewn swyddi cyfredol lle mae angen delio â'r cyhoedd
- Clywsom y gall 'rolau portffolio' arwain at nifer o fanteision i weithwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd, ond mae angen mynd i'r afael â nifer o rwystrau sy'n gysylltiedig â chael nifer o gyflogwyr er mwyn i fwy o weithwyr proffesiynol allu gweithio yn y ffordd honno
- Ceir ardaloedd 'anodd recriwtio ar eu cyfer' yng Nghymru, ac efallai y bydd angen hyblygrwydd i gymhwyso strategaethau denu newydd a dull gweithredu strategol gyda grwpiau proffesiynol eraill
- Dylid hybu rolau academaidd ac ymchwil glinigol yn y gweithlu fferylliaeth i hyrwyddo rhagoriaeth a gwelliannau
- Gan fod rôl glinigol y fferyllydd wedi newid i fod yn rôl presgripsiynu, dylai rolau'r tîm fferylliaeth fod wedi datblygu, ond mae pocedi o ymarfer hen-ffasiwn y mae angen eu diweddaru o hyd

# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 5** | **Datblygu dull cynhwysol a strategol ar lefel Cymru gyfan i hyrwyddo'r holl yrfaoedd sy'n berthnasol i dimau fferylliaeth yng Nghymru** |
| **Disgrifiad** | Prosiect tymor byr i gwmpasu a datblygu cynllun strategol cynhwysol ar gyfer gwneud rolau fferyllol yn fwy atyniadol, gan gynnwys profiad gwaith yn yr ysgol, lleoliadau yn ystod gwyliau, digwyddiadau agored a digwyddiadau recriwtio ar gyfer maes fferylliaeth yng Nghymru. Yn benodol, bydd hyn yn cynnwys gwaith allgymorth ychwanegol i sicrhau bod amrywiaeth ein gweithlu yn adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, gan gynnwys ysgolion Cymraeg, cymunedau â lefelau uchel o amddifadedd ac ardaloedd gwledig lle mae'n anodd iawn llenwi swyddi gwag ym maes fferylliaeth. Bydd yn adeiladu ar gynnwys presennol Hyfforddi, Gweithio, Byw [30] a Tregyrfa [31] ar faes fferylliaeth, ac yn cefnogi'r cynlluniau ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl a gofal sylfaenol. |
| **Cam Gweithredu 6** | **Creu a rhannu sylfaen dystiolaeth sy'n disgrifio swyddi ym maes fferylliaeth a phecyn yr holl fuddion a fydd yn cadw'r gweithlu fferylliaeth presennol ac yn denu gweithlu fferylliaeth y dyfodol** |
| **Disgrifiad** | Prosiect tymor byr i asesu a chrynhoi'r cynigion swydd a phecynnau denu ar draws y system. Sicrhau adnodd ymchwil (drwy Ymchwil Fferylliaeth Cymru neu Gymrodorion Clinigol AaGIC) i gasglu barn, ar lawr gwlad, am y cynigion swydd y mae pob grŵp staff ym maes fferylliaeth yn chwilio amdanynt. Bydd yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu â phob cyflogwr i'w ddefnyddio mewn cyd-destun lleol i greu swyddi gwerth chweil a fydd hefyd yn diwallu anghenion gwasanaeth y dyfodol. |
| **Cam Gweithredu 7** | **Datblygu atebion pwrpasol i wella'r cyfraddau denu a recriwtio i rolau fferylliaeth mewn ardaloedd lle mae'r natur wledig yn creu her benodol** |
| **Disgrifiad** | Canfod a darparu atebion i'r anghymhellion sy'n gysylltiedig â denu gweithlu fferylliaeth i ardaloedd gwledig a dal gafael arnynt, drwy ddefnyddio dull amlbroffesiwn. |
| **Cam Gweithredu 8** | **Datblygu llwybrau gyrfa Academydd Clinigol ac Ymchwilydd Clinigol ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth, gan sicrhau mynediad teg at gyfleoedd cyllido a hyfforddiant** |
| **Disgrifiad** | Gweithio gyda Pharmacy Research Wales a phartneriaid eraill i ddatblygu llwybrau gyrfa ymchwil ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth, a sicrhau mynediad teg at gyfleoedd cyllido a hyfforddiant ym maes deintyddiaeth a meddygaeth. |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 9** | **Er mwyn cefnogi'r gwaith o roi fframweithiau datblygu gyrfa ar waith yn gyson ar draws holl feysydd gwasanaeth y GIG, mae'r holl ddisgrifiadau swydd ar gyfer rolau fferylliaeth yn cael eu mapio'n unol â sgiliau a chymwyseddau fframweithiau gyrfa cenedlaethol cydnabyddedig ym maes fferylliaeth (er enghraifft, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol)** |
| **Disgrifiad** | Prosiect i helpu i ddynodi swyddi fferylliaeth yn ôl lefel yr ymarfer neu'r cymhwysedd angenrheidiol yn unol â'r fframwaith datblygu gyrfa perthnasol, yn hytrach nag yn ôl lleoliad y gwaith (a Band i'r GIG). |
| | Ar gyfer y GIG, cwmpasu'r cyfle i ddiweddaru proffiliau swyddi fferylliaeth fel bod disgrifiadau'n cyd-fynd â sgiliau a chymwyseddau'r fframwaith datblygu gyrfa penodol ar gyfer fferylliaeth |

# Thema 3 – Modelau Gweithlu Di-dor

**Erbyn 2030, bydd newidiadau mewn diwylliant yn golygu bod sgiliau uwch y gweithlu fferylliaeth yn cael eu cyfuno'n fwy cyflawn â thimau amlbroffesiwn o wahanol asiantaethau, er mwyn darparu'r gofal gorau.**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Mae rolau fferylliaeth yn newid yn gyflym yn dilyn mandadau rheoleiddiol a chontractiol. Hefyd, mae datblygiadau technolegol a newidiadau yn y gwasanaeth wrthi'n cael eu rhoi ar waith, yn benodol: -
  - Safonau newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol,
  - Fframwaith Contract newydd ar gyfer Fferylliaeth Gymunedol,
  - Adolygiad o Wasanaethau Fferylliaeth mewn Ysbytai a Gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru,
  - prosiect Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TraAMs),
  - Y Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol.
- Bydd faint o gysoni meddyginiaethau sy'n digwydd rhwng lleoliadau gofal yn lleihau oherwydd technoleg, a bydd yn haws i'r rheini sydd â'r angen mwyaf am fewnbwn gan y maes fferylliaeth gael eu blaenoriaethu.
- Mae angen gwneud gwaith ar draws y llwybrau iechyd a gofal fel bod atgyfeiriadau di-dor neu fynediad uniongyrchol at y clinigwr priodol ym mhob lleoliad gofal.
- Mae angen gwell dealltwriaeth o lwybrau gyrfa a rolau newydd ym maes fferylliaeth, yn gyntaf ymysg ein gweithlu ein hunain, yn ogystal â'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd ac arweinwyr gwasanaethau.
- Bydd angen i dimau fferylliaeth ym mhob sector gymryd rhan fwy cyson wrth ddylunio llwybrau gofal er mwyn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth yn cael eu defnyddio lle gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol i reoli meddyginiaethau'n ddi-dor rhwng gwasanaethau sylfaenol, eilaidd ac arbenigol.
- Ym maes fferylliaeth gymunedol yn benodol, nodwyd bod diffyg amser, seilwaith a fforymau i wella prosesau cyfathrebu neu berthnasoedd gwaith cydweithredol yn rhwystr ar hyn o bryd.
- Rhaid i waith sydd wedi dechrau ar rôl Fferyllwyr Ymgynghorol, yr arweinwyr clinigol uchaf eu lefel ym maes fferylliaeth, gael ei gwblhau i egluro'r rolau a disgrifio eu lle, gan ymwreiddio hynny mewn timau clinigol sy'n arwain newid trawsnewidiol ar draws y rhyngwynebau iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae'r meddyginiaethau'n gymhleth neu'r niferoedd yn uchel.
- mae'r gweithlu wedi nodi'r angen i wella, datblygu a chryfhau cysylltiadau gwaith, prosesau cydweithio a llwybrau cyfathrebu o fewn ac ar draws y maes gofal sylfaenol

# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 10** | **Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r newidiadau mewn rolau fferylliaeth ym maes gofal iechyd** |
| **Disgrifiad** | Ymgyrch genedlaethol yn y cyfryngau i wella dealltwriaeth y cyhoedd o sut mae rolau a gwasanaethau fferylliaeth yn newid. Bydd hyn yn cadw ymddiriedaeth y cyhoedd ac yn helpu i leihau'r pwysau ar y gweithlu drwy sicrhau mynediad priodol at wasanaethau. |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 11** | **Fel sylfaen ar gyfer meithrin mwy o gydweithio gyda'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, gwella dealltwriaeth ynghylch sut mae pob rôl fferylliaeth yn trawsnewid** |
| **Disgrifiad** | Prosiect tymor byr i gwmpasu dealltwriaeth bresennol ac anghenion dysgu ein Partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn perthynas â'r 'Safonau newydd ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol',[3] 'Presgripsiwn Newydd',[15] a 'Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaeth',[32] ac archwilio sut bydd cysylltiadau gwaith â gwasanaethau fferylliaeth yn newid er budd y cyhoedd.<br><br>Bydd gwell dealltwriaeth yn helpu i ddatblygu llwybrau cyfeirio sy'n cynnwys fferylliaeth ac yn cefnogi gweithio di-dor. Bydd canfyddiadau'n cael eu dwyn ymlaen i fforymau perthnasol a fydd yn cynnwys, er enghraifft, Strategaeth y Gweithlu Gofal Sylfaenol, Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a ffrydiau gwaith Gofal Brys a Gofal wedi'i Gynllunio. |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 12** | **Cytuno ar Strategaeth ar gyfer Fferyllwyr Ymgynghorol yng Nghymru, a'i rhoi ar waith** |
| **Disgrifiad** | Bydd y gwaith hwn yn cynyddu'r gronfa o fferyllwyr 'sy'n barod i fod yn ymgynghorwyr' yng Nghymru. Lle mae angen am wasanaeth mewn timau clinigol, lle mae gan gleifion anghenion cymhleth o ran meddyginiaethau, bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu swyddi fferyllwyr ymgynghorol, gan ddarparu llwybrau gyrfa clinigol a fydd yn cadw fferyllwyr arbenigol ac yn cefnogi'n well agendâu addysg, hyfforddiant ac ymchwil mewn perthynas â meddyginiaethau ar gyfer y tîm clinigol amlbroffesiwn cyfan. |



# Thema 4 – Adeiladu Gweithlu sy’n Barod yn Ddigidol

**Erbyn 2030, bydd galluoedd digidol y gweithlu fferylliaeth wedi’u datblygu’n eang ac yn dda iawn i’n helpu i ddarparu’r gofal gorau posibl i bobl gan ddefnyddio’r datblygiadau diweddaraf ym maes technoleg**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Gallai datblygiadau digidol, ar ôl iddyn nhw gael eu cyflwyno’n briodol, fod o fudd i’r cyhoedd a’r gweithlu drwy roi mwy o ‘amser i ofalu’, gwella diogelwch, gwella prosesau cyfathrebu, a sicrhau llai o wastraff a phwysau yn y gweithle sy’n gysylltiedig â systemau papur. Mae’n hen bryd i’r gweithlu fferylliaeth ym mhob sector weithredu systemau fel gweinyddu meddyginiaethau a phresgripsiynu electronig.
- Soniwyd yn aml am ddiffygion rhai o’r systemau digidol presennol sy’n cael effaith negyddol ar ddarpariaeth gofal heb ei drefnu ar y rheng flaen a phwysau cynyddol yn y gweithle. Clywsom fod sicrhau defnyddioldeb, hygyrchedd a dibynadwyedd adnoddau digidol yn rhan bwysig o’r broses o helpu a gwerthfawrogi’r gweithlu.
- Bydd angen y sgiliau ar y gweithlu fferyllol i ymdrin ag amgylchedd gofal iechyd sy’n llawn data, a bydd mewn sefyllfa dda i allu blaenoriaethu ymyriadau a gwneud penderfyniadau am driniaethau clinigol drwy ddefnyddio data sy’n cael ei gasglu mewn dyfeisiau digidol, fel technoleg monitro y mae modd ei gwisgo.
- Er bod timau fferylliaeth yn awyddus i groesawu technoleg a fydd yn gwella gofal, ychydig o ystyriaeth sydd wedi’i rhoi i ba ddatblygiadau sy’n debygol o ddod yn rhai prif ffrwd yn ystod cam gweithredu’r cynllun gweithlu hwn, hyd at 2030. Rhaid ystyried yr arferion gweithio newydd sy’n deillio o ddefnyddio technoleg newydd, yn ogystal â rhagweld y ffordd orau o ddatblygu rolau swyddi a chymysgedd sgiliau timau yn ystod y 5 i 10 mlynedd nesaf yn sgil hynny.
- Mae angen i’r gweithlu fferylliaeth gael y sgiliau i ddarparu gofal tosturiol drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys ymgynghoriadau digidol, dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Byddant yn cynllunio trefniadau eu gwasanaeth i fod yn gynhwysol fel bod modd i unigolion gael cyswllt yn y ffordd fwyaf priodol iddyn nhw.
- Gall datblygiadau mewn systemau clinigol digidol fod yn help i ddefnyddio arbenigedd fferyllol mewn ffordd fwy hyblyg, yn enwedig lle mae adnoddau’n brin.
- Bydd timau fferylliaeth ym mhob man yn defnyddio offer electronig i gefnogi penderfyniadau fel mater o drefn ar bob lefel, o bersonoli meddyginiaethau i adolygu data presgripsiynu a chanlyniadau iechyd y boblogaeth.
- Bydd mwy o systemau fferylliaeth awtomatig yn gwella cyfleoedd ar gyfer archwilio, meincnodi, sicrhau ansawdd a gwelliannau o dan arweiniad tîm fferylliaeth medrus. Rhaid i dimau fferylliaeth ddatblygu partneriaethau ymchwil technoleg newydd.
- Mae Cymru wedi creu’r Fframwaith Galluogrwydd Digidol a’r Academi Iechyd a Gofal Digidol i helpu ein gweithlu i baratoi ar gyfer y datblygiadau technolegol sy’n dod ar-lein nawr ac yn y dyfodol. Er nad oedd fferylliaeth yn rhan o’r cynllun peilot cychwynnol, bydd y cynllun hwn yn mynd â’n gweithlu ar daith a fydd yn cynnwys mapio sgiliau fel mater o drefn yn erbyn y Fframwaith Digidol.
- Mae ffigurau data comisiynu AaGIC yn awgrymu bod diffyg ymwybyddiaeth o ddatblygiadau newydd yn yr Academi Iechyd a Gofal Digidol o ran arweinwyr clinigol, neu nad yw ein gweithlu’n eu dilyn yn dda iawn am resymau eraill.

- Gan fod angen mwy a mwy o weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth ym mhob sector i gyfrannu eu harbenigedd yn eu maes i ddylunio Apiau, meddyginiaethau digidol, presgripsiynu electronig, roboteg ac adnoddau Deallusrwydd Artiffisial, mae angen i rai unigolion ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth er mwyn cydweithio'n effeithiol â defnyddwyr, datblygwyr a dadansoddwyr.
- Er mwyn sicrhau gwaith rheoli da a defnydd effeithiol o dechnoleg, rhaid i weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth fod yn rhan o dimau e-Iechyd – er enghraifft, rolau Swyddog Gwybodaeth Ddigidol. Byddant yn cynllunio newidiadau system, yn rheoli risgiau clinigol ac yn goruchwylio newidiadau.

## Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 13** | **Comisiynu prosiect fferylliaeth ddigidol i sganio'r gorwel i gael syniad o ddatblygiadau technolegol a fydd yn effeithio ar rolau'r gweithlu fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Comisiynu gwaith i gwblhau ymarfer cwmpasu, gan gynnwys adolygu llenyddiaeth ac ymgysylltu ar oblygiadau technolegau newydd i rolau a hyfforddiant y gweithlu fferylliaeth dros y 5 i 10 mlynedd nesaf.<br><br>Gweithio gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru a phartneriaid digidol eraill, fel Tec Cymru, i ddeall sut bydd cynlluniau gwaith digidol yn effeithio ar rolau fferylliaeth. |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 14** | **Datblygu ymddygiadau, cymwyseddau a sgiliau digidol generig cyson yn y gweithlu fferylliaeth gan ddefnyddio Fframwaith Galluogrwydd Digidol AaGIC** |
| **Disgrifiad** | Drwy asesu a datblygu sgiliau gwybodaeth a chymhwysedd y gweithlu fferylliaeth, bydd anghenion hyfforddi yn cael eu nodi a'u cefnogi yn erbyn Fframwaith Galluogrwydd Digidol AaGIC [26] ar gyfer Gofal Iechyd yng Nghymru er mwyn i bawb allu ymgysylltu â thechnolegau newydd sy'n cynnig datblygiadau clinigol. Bydd hyn yn cynnwys nodi a chreu Hyrwyddwyr Digidol a rhwydweithiau i gefnogi gwaith trawsnewid a chydweithredu. |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 15** | **Datblygu Arweinwyr Clinigol Digidol ym maes Fferylliaeth i ddylanwadu ar waith trawsnewid digidol ac arwain hynny** |
| **Disgrifiad** | Nodi unigolion ym maes fferylliaeth i'w datblygu yn erbyn y Fframwaith Academaidd Sgiliau Digidol. [33] sef llwybr academaidd i glinigwyr ddatblygu sgiliau digidol, technoleg a gwybodeg er mwyn siapio'r chwyldro digidol ym maes gofal iechyd.<br><br>Mae hyn yn helpu staff clinigol uwch sy'n datblygu sgiliau ychwanegol i gynnwys technoleg yn eu hymarfer clinigol (ee, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg) i wella canlyniadau clinigol penodol mewn grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth.<br><br>Yn dilyn llwyddiant rolau Swyddogion Gwybodaeth Glinigol a Nyrsio, a oedd yn cynorthwyo'r broses o weithredu Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, byddwn yn ystyried potensial rôl Prif Swyddog Gwybodaeth Fferyllol i gefnogi datblygiadau electronig sy'n ymwneud â meddyginiaethau. |

# Thema 5 – Addysg a Dysgu Rhagorol

**Erbyn 2030, bydd y buddsoddiad mewn addysg a datblygu ar gyfer timau fferylliaeth yn darparu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl Cymru**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Gyda llawer o bwysau yn y gweithle, mae'r capasiti ar gyfer hyfforddi mewn ymarfer clinigol yn gyfyngedig. Rhaid defnyddio rhith-amgylcheddau clinigol i gynyddu'r capasiti hyfforddiant, yn ychwanegol at leoliadau clinigol wyneb yn wyneb sydd dan oruchwyliaeth.
- Gyda lleoliadau fferylliaeth i israddedigion yn dechrau ym mlwyddyn academaidd 2022, mae'n hanfodol bod profiadau yn y gweithle yn rhai cadarnhaol. Mae perygl i brofiadau gwael wneud i fferyllwyr y dyfodol droi eu cefn ar eu cyflogwr, eu sector neu ar Gymru hyd yn oed.
- Cafodd fframweithiau datblygu gyrfa cyffredinol ym maes fferylliaeth ar gyfer pob grŵp staff fferylliaeth, sy'n gysylltiedig ag adnoddau datblygu canolog, y lefelau uchaf o gefnogaeth gan randdeiliaid. Cydnabuwyd gwerth fframweithiau datblygu gyrfa i fapio gwybodaeth a sgiliau yn gyson, ni waeth beth fo'r sector ymarfer.
- Pan fydd hyfforddeion yn gweithio ar draws sectorau, maen nhw'n gweld y problemau o ran rhyngwyneb ac yn dweud bod hyn yn newid eu hymarfer. Ar hyn o bryd, mae gwahaniaeth rhwng profiad aml-sector y fferyllydd dan hyfforddiant a phrofiad un sector y technegydd fferyllol cyn-cofrestru.
- Roedd brwdfrydedd dros fwy o ddysgu rhyngbroffesiynol gan fod hyn yn helpu i baratoi gweithwyr proffesiynol i weithio gyda'i gilydd yn ymarferol.
- Yn ein harolygon o'r gweithlu, codwyd pryderon ynghylch rhagfarn yn effeithio ar fynediad at ddatblygiadau i bawb. Hefyd, dysgwyd bod angen mynediad at ddatblygiadau ar rai rheolwyr o bosibl er mwyn cefnogi gweithlu amrywiol yn well, a hyrwyddo cynhwysiant yn y gweithle er mwyn i bawb gael y cyfle i ddatblygu, i ffynnu ac i gyflawni eu llawn botensial.
- Yn genedlaethol, gwelwn fwlch cyrhaeddiad ym maes fferylliaeth lle nad yw lleiafrifoedd ethnig yn perfformio cystal, ac mae angen mynd i'r afael â hyn cyn dechrau'r hyfforddiant.
- Hyn a hyn o hyfforddwyr, mentoriaid a goruchwylwyr sydd ar gael yn y gweithle, ac mae hynny'n cyfyngu ar nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael.
- Er mwyn cynnig profiad hyfforddi cadarnhaol, mae angen i dimau fferylliaeth gael amser wedi'i neilltuo i allu datblygu'r rheini sydd ar raglenni dysgu yn y gweithle.

Yn ystod ein gwaith ymgysylltu, mae gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth wedi mynegi eu bod yn rhagweld y bydd rolau allweddol yn dod i'r amlwg ym maes genomeg a defnyddio meddyginiaethau manwl yng Nghymru. Byddant yn helpu gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i ddeall genomeg a chynnyrch meddyginiaeth therapi uwch.

# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 16** | **Ehangu mynediad at dechnolegau ymgolli ar gyfer y gweithlu fferylliaeth yn ystod eu datblygiad a'u haddysg gofal iechyd yng Nghymru** |
| **Disgrifiad** | Mae maes fferylliaeth yn ymwneud mwy a mwy â'r weledigaeth ganolog gydgysylltiedig ar gyfer ymgorffori technolegau ymgolli ar draws maes addysg a hyfforddiant gofal iechyd, gyda thîm digidol AaGIC. Gallai hyn gynnwys edrych ar ffyrdd o ddefnyddio dysgu drwy efelychu a dysgu digidol ar lefel uwch i gefnogi'r broses o integreiddio gwaith datrys problemau cymhleth a gwella dysg a gwaith timau amlbroffesiwn ym mhob cam o'r llwybrau datblygu gyrfa yn y byd fferylliaeth. |
| **Cam Gweithredu 17** | **Sicrhau bod yr holl raglenni hyfforddi sy'n cael eu hariannu gan AaGIC yn cael eu cyflwyno'n unol â Fframwaith Ansawdd AaGIC** |
| **Disgrifiad** | Mae hyn yn cynnwys cynllunio Ansawdd; o 'asesu anghenion' i 'gomisiynu', Rheoli Ansawdd; gyda gwell monitro, Sicrhau Ansawdd; drwy archwilio a gwerthuso a Gwella Ansawdd; drwy ddatblygu arferion gorau. |
| **Cam Gweithredu 18** | **Edrych ar y cyfleoedd i gynnig cyfleoedd hyfforddi aml-sector i dechnegwyr fferyllol cyn-cofrestru** |
| **Disgrifiad** | Prosiect tymor byr i edrych ar yr angen i drawsnewid hyfforddiant technegwyr fferyllol yn brofiad aml-sector, a manteision hynny. |



| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 19** | **Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynigion ar gyfer cynnwys genomeg a chynhyrchion meddyginiaeth therapi uwch yn addysg a hyfforddiant y gweithlu** |
| **Disgrifiad** | Bydd addysg a hyfforddiant ar gael ar draws y llwybrau gyrfa i sicrhau bod y gweithlu fferylliaeth yn gallu ymateb i'r newidiadau y bydd genomeg a chynhyrchion meddyginiaeth therapi uwch yn eu cyflwyno. |
| **Cam Gweithredu 20** | **O 2026 ymlaen, bydd pob gweithiwr fferyllol newydd sy'n aelod cofrestredig yng Nghymru yn cael cefnogaeth i ddilyn fframwaith lefel Sylfaen, Uwch ac Ymgynghorydd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol** |
| **Disgrifiad** | Bydd y broses o gamu ymlaen yn eich gyrfa yn seiliedig ar gymhwysedd, a bydd yn rhaid i'r aelodau cofrestredig ennill cymwysterau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol er mwyn symud ymlaen o ymarfer lefel sylfaen ôl-gofrestru i ymarfer uwch neu ymgynghorol. |
| **Cam Gweithredu 21** | **Gwella mynediad at adnoddau canolog sy'n cefnogi fframweithiau datblygu gyrfa ar gyfer pob rôl yn y tîm fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Fel rhan o'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant blynyddol, bydd AaGIC yn edrych yn fanwl ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer pob grŵp yn y gweithlu fferylliaeth (staff cymorth, hyfforddeion proffesiynol, technegwyr fferyllol a fferyllwyr) ar bob lefel, a byddwn yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau. |
| **Cam Gweithredu 22** | **Cynyddu nifer y mentoriaid, tiwtoriaid a Goruchwylwyr Dynodedig yn holl gamau'r fframweithiau gyrfa ym maes fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Prosiect tymor byr i gwmpasu ac adrodd ar opsiynau ym maes fferylliaeth a thu hwnt er mwyn cynyddu nifer y mentoriaid, y tiwtoriaid a'r Goruchwylwyr Dynodedig i ddiwallu angen cynyddol y gweithlu fferylliaeth. Bydd angen i'r gefnogaeth fod yn un amlbroffesiwn. |
| **Cam Gweithredu 23** | **Cynyddu cyfleoedd hyfforddi amlbroffesiwn ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Er gwaethaf y dystiolaeth ynghylch manteision dysgu amlbroffesiwn, prin yw'r cyfleoedd i weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth i hyfforddi gydag eraill.<br><br>Cwmpasu a thynnu sylw at feysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygiad amlbroffesiwn mewn rhaglenni hyfforddi cenedlaethol i bob grŵp staff ym maes fferylliaeth ac i'r fframweithiau gyrfa sy'n berthnasol ar ôl cofrestru. Datblygu'r rhain gyda phartneriaid proffesiynol. |

# Thema 6 – Arweinyddiaeth ac Olyniaeth

**Erbyn 2030, bydd holl aelodau'r tîm fferylliaeth yn dangos sgiliau arwain cyfunol a thosturiol ac yn gweithio'n effeithiol mewn tîm i ddarparu gofal o safon uchel wrth arwain yr agenda meddyginiaethau yng Nghymru**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Yn ystod ein gwaith ymgysylltu, cawsom ar ddeall y bu diffyg buddsoddi yn sgiliau arwain gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth er budd datblygiadau therapiwtig clinigol, neu'r rheini sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, a bod angen dull gweithredu mwy cytbwys wrth symud ymlaen.
- Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn cyfleu anallu tybiedig gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth i newid eu sefyllfa waith eu hunain er gwell.
- Yn groes i hynny, mae rolau fferyllwyr ymgynghorol, sy'n cael eu rhyddhau i ddarparu arweinyddiaeth ar feddyginiaethau mewn timau amlbroffesiwn, wedi cyflawni rhai o'r trawsnewidiadau mwyaf sylweddol i ganlyniadau iechyd y cyhoedd yng Nghymru.
- Nid yw defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal iechyd na'r cyhoedd wedi elwa eto o lawn botensial gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth sy'n arwain ar faterion sy'n ymwneud â meddyginiaethau.
- Mae'r gronfa o ymgeiswyr ar gyfer swyddi uwch ym maes fferylliaeth wedi bod yn rhy fach, oherwydd nad oes digon o weithwyr proffesiynol wedi meithrin profiad o arwain yn ystod eu gyrfaoedd.
- Mae cyfleoedd arwain yn dod i'r amlwg sy'n cynnwys trawsnewid gofal sylfaenol ac eilaidd, gofal yn nes at adref, presgripsiynu, genomeg a meddyginiaeth fanwl, newidiadau digidol mewn gwasanaethau arbenigol, gweithgynhyrchu a chaffael.



# Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 24** | **Creu llwybrau mynediad wedi'u teilwra ar gyfer pob grŵp staff ym maes fferylliaeth er mwyn defnyddio'r adnoddau arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol sydd ar gael ar Gwella.** |
| **Disgrifiad** | Rhaid i bawb sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau'r GIG ddilyn Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol os ydym am lwyddo i ddarparu gofal tosturiol drwy ein gwasanaethau. Byddwn yn ymwneud mwy â chynigion ar gyfer datblygu arweinyddiaeth drwy wefan Gwella AaGIC, ac yn datblygu'r broses o gyfeirio staff cymorth fferylliaeth a gweithwyr proffesiynol ar bob cam o'r fframweithiau cyn ac ar ôl cofrestru, ar lefel uwch ac ar lefel ymgynghorydd. Bydd arweinyddiaeth dosturiol yn helpu i greu diwylliannau lle mae gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn ddiogel ac wedi'u grymuso i wella gofal. |
| **Cam Gweithredu 25** | **Datblygu a darparu atebion ar gyfer arweinyddiaeth glinigol a phroffesiynol sy'n cyd-fynd â Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n adlewyrchu gofynion y gweithlu fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Mae arweinyddiaeth effeithiol o safbwynt meddyginiaethau ar lefel tîm a gwasanaeth yn hanfodol i ansawdd gwasanaethau iechyd, a gall gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth ddarparu hynny. Er bod rhaid i ni osgoi dull ynysig o ddatblygu ein harweinwyr, gellir dadlau bod angen i ni gynyddu'r momentwm wrth gyflwyno datblygiadau arweinyddiaeth lle nad yw'r gweithlu fferylliaeth wedi cael ei ddatblygu'n ddigonol yn hanesyddol. |
| **Cam Gweithredu 26** | **Darparu a datblygu atebion ar gyfer arweinyddiaeth broffesiynol sy'n cyd-fynd â'r strategaeth arweinyddiaeth ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, ac sy'n adlewyrchu gofynion y gweithlu fferylliaeth** |
| **Disgrifiad** | Mae safon uwch arweinwyr yn hanfodol i ddiwylliant ac amgylchedd gwaith cadarnhaol gwasanaethau fferylliaeth. Bydd cymorth cychwynnol ar gyfer uwch arweinwyr ym maes fferylliaeth yn eu helpu i ddatblygu diwylliant o arweinyddiaeth dosturiol a chyfunol ar gyfer staff iau. |

# Thema 7 – Cyflenwad a Siâp y Gweithlu

**Erbyn 2030, bydd gennym weithlu fferylliaeth cynaliadwy ac amrywiol, gyda digon o niferoedd i ddiwallu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ein poblogaeth**

## Y canfyddiadau allweddol hyd yma

- Mae gwybodaeth am y gweithlu fferylliaeth yn dameidiog ac mae angen ei datblygu a'i chysoni ymhellach i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu. Ar hyn o bryd, mae cynllunio'n digwydd mewn ffordd ynysig.
- Mae arweinwyr eisiau bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata. Mae angen i Gymru symud o adroddiadau gweithredol mewn gweithleoedd neu sectorau unigol at adroddiadau manylach a gwaith dadansoddi drwy'r wlad i gyd.
- Mae angen i ni ddenu ystod ehangach o bobl i yrfaoedd fferylliaeth fel bod y gweithlu'n cynrychioli'n well y boblogaeth leol y mae'n ei gwasanaethu.
- Pan fydd gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth yn cael dirprwyo cyfrifoldebau, dylent roi'r gorau i ymgymryd â rhai swyddogaethau a chanolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen i gyflawni 'Cymru Iachach'.
- Mae angen newid siâp a maint y gweithlu fferylliaeth er mwyn cefnogi modelau gofal, polisïau a'r cyd-destun deddfwriaethol yn y dyfodol, i ymateb i'r technolegau newydd sy'n cael eu rhoi ar waith. Disgwylir i hyn gynnwys tîm mwy amrywiol, yn enwedig mewn gwasanaethau arbenigol lle gallai gwyddonwyr a gweithwyr proffesiynol eraill fod yn gymwys iawn.
- Mae gwybodaeth a data am y gweithlu ar gael i reolwyr y GIG drwy system Gwybodaeth Fusnes y GIG, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn at ddibenion cynllunio. Wrth i System Genedlaethol Cymru ar gyfer Adrodd am y Gweithlu gael ei datblygu a'i hehangu i gynnwys fferylliaeth gymunedol, mae angen datblygu sgiliau dadansoddi arweinwyr systemau fferyllol.
- Tynnwyd sylw at fwlch yn y ddarpariaeth gan nad yw AaGIC yn gallu ymateb yn effeithiol i geisiadau am lwybr i gofrestru ar gyfer ffoaduriaid sy'n byw yma ac yn weithwyr fferyllol sy'n aelodau cofrestredig dramor.

## Camau Gweithredu

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 27** | **Gwella mynediad at wybodaeth am y gweithlu a sicrhau bod data a chanlyniadau ym maes fferylliaeth i'w gweld yn Ffrwd Addysg i Gyflogaeth AaGIC** |
| **Disgrifiad** | Gweithio gyda phartneriaid fel bod gwybodaeth am y gweithlu fferylliaeth ar gael bob chwarter ar gyfer pob sector fferylliaeth, a hynny yn ôl grŵp staff, bwrdd iechyd a chlwstwr, drwy gysoni setiau data ar gyfer gweithluoedd y GIG, practisau cyffredinol a fferylliaeth gymunedol. |

| | |
|---|---|
| **Cam Gweithredu 28** | **Cyflwyno dadansoddiad systematig o waith cynllunio gweithlu a data ar gyfer gweithlu fferylliaeth cynaliadwy er mwyn gallu comisiynu'n well ar sail data** |
| **Disgrifiad** | Sefydlu grŵp i nodi risgiau a chyfleoedd – nawr ac yn y dyfodol – o ran cynaliadwyedd y gweithlu fferylliaeth, a fydd yn monitro cynnydd wrth ddatblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth, yr iaith Gymraeg, a hunaniaeth ddiwylliannol. Cyfeirio materion y mae angen rhoi sylw iddynt at bartneriaid. Archwilio pa brosesau y gellir eu rhoi ar waith yn y DU i godi ymwybyddiaeth o'r prif dueddiadau sy'n effeithio ar y byd fferylliaeth, gan gasglu gwybodaeth allanol i allu rhagweld sut i fod yn ymatebol ac yn gadarn, fel y gwelir yn Rhagolwg Fferylliaeth America.[34] |
| **Cam Gweithredu 29** | **Datblygu sgiliau cynllunio'r gweithlu ymysg gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth ym mhob bwrdd iechyd a phob sector ac ar draws gwahanol arbenigeddau clinigol** |
| **Disgrifiad** | Helpu ymarferwyr fferylliaeth yn y gwasanaeth i lunio neu ddylanwadu ar gynlluniau gweithlu arbenigol ar gyfer eu maes ymarfer, (lleol, rhanbarthol neu genedlaethol) sydd wedi'u blaenoriaethu yn unol â Chynlluniau Clinigol Cenedlaethol. Gallai hyn gynnwys mynediad at ddatblygiadau amlbroffesiwn neu secondiadau tymor byr rhan-amser i gael gafael ar adnoddau AaGIC. |
| **Cam Gweithredu 30** | **Cydweithio i sicrhau naratif clir ar gyfer rolau fferylliaeth a datblygu'r gweithlu drwy'r holl Gynlluniau Tymor Canolig Integredig, gydag addasiadau lleol** |
| **Disgrifiad** | Negeseuon rhagweithiol clir gan y proffesiynau drwy gynlluniau gweithlu ar gyfer Byrddau Iechyd, fel rhan o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig a chylchoedd comisiynu. Mae hyn yn cynnwys gweithluoedd practis cyffredinol a chymunedol, sy'n cynrychioli'r rhan fwyaf o'r gweithlu fferylliaeth. |
| **Cam Gweithredu 31** | **Adrodd ar ddichonoldeb ystod ehangach o opsiynau 'cyflenwi' ar gyfer y gweithlu o weithwyr fferyllol sy'n aelodau cofrestredig.** |
| **Disgrifiad** | Bydd y gwaith arfarnu opsiynau yn archwilio dichonoldeb a blaenoriaethau adnewyddu pecynnau 'Dychwelyd i Ymarfer', datblygu gradd-brentisiaethau mewn fferylliaeth, ymgymryd â rhaglenni recriwtio rhyngwladol, a chreu llwybr at gofrestru yng Nghymru ar gyfer fferyllwyr sydd wedi'u dadleoli a thechnegwyr fferyllol sydd â statws ffoadur. |

# 8: Y Manteision

Bydd gweithredu'r 31 cam gweithredu yn y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yn dod â manteision i wahanol grwpiau o randdeiliaid.

## Manteision i ddinasyddion:

- mynediad mwy amserol at feddyginiaethau, gan gynnwys meddyginiaethau ar bresgripsiwn, lle bynnag maen nhw yng Nghymru
- gwell diogelwch yng nghyswllt meddyginiaethau wrth i weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth arwain ar systemau meddyginiaethau digidol a defnydd o feddyginiaethau mewn llwybrau gofal clinigol
- proses esmwyth a pharhaus ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau a chyflenwadau rhwng lleoliadau gofal
- mwy o opsiynau ar gyfer cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda meddyginiaethau gan dimau fferylliaeth sy'n 'nes at adref', gan gynnwys
    - hunanofal a thrin mân anhwylderau, a
    - gofal arbenigol iawn gan weithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth sy'n arwain ar feddyginiaethau o fewn timau clinigol amlbroffesiwn
    - mwy o gyswllt uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth sydd â sgiliau a gwybodaeth a sicrhawyd drwy gymwysterau fframwaith datblygu gyrfa
- cael eu trin yn dosturiol gan dimau fferylliaeth sy'n ddiwylliannol gymwys ac yn ymateb i anghenion ieithyddol unigolion
- mwy o gyfleoedd i ddylanwadu, drwy ymgysylltu â'r cyhoedd, ar ddatblygiadau mewn gwasanaethau fferylliaeth
- mynediad diogel ac amserol at y technolegau a'r meddyginiaethau diweddaraf, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn gwella iechyd.

## Manteision i'r gweithlu fferylliaeth:

- amser yn y gwaith i; ddarparu gofal, datblygu eich hun ac eraill, arwain gwelliannau a chymryd rhan mewn ymchwil
- lefel uwch o lesiant, cymhelliant a boddhad mewn swydd
- diwylliannau tosturiol, gydag arweinwyr rhagorol yn dangos esiampl
- mwy o gyfleoedd i weithio'n hyblyg
- gwell mynediad at gyfleoedd datblygu o fewn fframweithiau gyrfa ar gyfer yr holl grwpiau staff
- gwell mynediad at oruchwylwyr, mentoriaid a hyfforddwyr
- hyfforddiant o ansawdd uchel yn gyson
- perthynas waith amlbroffesiwn effeithiol ar draws pob lleoliad gofal
- parch cyfartal at rolau proffesiynol ym maes fferylliaeth drwy ddefnyddio fframweithiau datblygu gyrfa ym mhob sector

Un o ddyletswyddau statudol Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Iechyd Statudol yw gwella ansawdd eu gwasanaethau iechyd, a gwasanaethau'r sefydliadau sy'n cael contractau ganddynt. [35] Mae'r cynllun hwn ar gyfer y gweithlu yn ffactor galluogi o bwys ar gyfer sefydliadau sy'n mynd ati i gyflawni'r ddyletswydd hon.

## Manteision i Ymddiriedolaethau/Byrddau Iechyd, Awdurdodau Iechyd Statudol a chyflogwyr:

- gweithlu fferylliaeth gyda gwell sgiliau clinigol, addysg, ymchwil ac arwain i gyflymu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau
- cyflawni nodau strategol 'Cymru Iachach', i symud mwy o ofal i'r gymuned
- diwylliant tosturiol
- gwell cyfraddau cadw staff a llai o swyddi gwag
- gwell cyfraddau denu a recriwtio
- mwy o gapasiti ar gyfer hyfforddiant i gynyddu nifer y gweithwyr fferyllol sy'n aelodau cofrestredig yng Nghymru
- gwell gwybodaeth am y gweithlu fferylliaeth ar gyfer cynllunio
- y capasiti a'r gallu i fabwysiadu technolegau newydd sy'n gwella canlyniadau iechyd
- cyfleoedd newydd i gymysgu sgiliau mewn timau clinigol amlbroffesiwn

# 9: Rhoi ar waith

Mae lansio'r Cynllun Strategol hwn ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yn arwydd o'n hymrwymiad i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf brys sy'n wynebu'r gweithlu fferylliaeth sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn gyflym ac yn bendant. Mae Cymru yn ymrwymedig iawn i weithio gyda phartneriaid, a bydd hyn yn hollbwysig yn y cam gweithredu nesaf. Mae'r cynllun yn gofyn am ymdrech ar y cyd i sefydlogi sylfaen bresennol y gweithlu, y gallwn wedyn adeiladu arni.

Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu erbyn mis Medi, a fydd yn amlinellu sut bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu cyflawni dros y tair blynedd nesaf. Gellir bwrw ymlaen â rhai o gamau gweithredu'r cynllun gyda'r adnoddau presennol neu gydag ychydig iawn o fuddsoddiad, a bydd cynnydd yn cael ei wneud ar y rheini ar unwaith. Bydd camau gweithredu eraill yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol, a fydd yn destun trafodaeth drwy gynlluniau ac achosion unigol. Bydd y 31 cam gweithredu'n cael eu grwpio'n bortffolios gwaith hwylus i'w datblygu gyda phartneriaid ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn unol â threfniadau gweithredu cadarn.

# 10: Llywodraethu ac Atebolrwydd

Bydd Tîm Prosiect y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth yn adrodd i Fwrdd Trawsnewid Fferylliaeth AaGIC – sy'n atebol i Dîm Gweithredol AaGIC – ar y cynnydd a wnaed i roi'r 31 cam gweithredu ar waith. Mae Prif Weithredwr AaGIC yn adrodd ar holl gynlluniau strategol y gweithlu i Fwrdd Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gweithlu. Mae'r Bwrdd, o dan gadeiryddiaeth Judith Paget, yn adrodd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. [36]

# 11: Cyfeiriadau


1. Pwyllgor Fferyllol Cymru. 2019, Fferylliaeth: Cyflawni Cymru Iachach. Ar gael yn https://www.rpharms.com/wales/welsh-delivering-a-healthier-wales
2. Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. 2020. Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael yn https://aagic.gig.cymru/files/workforce-strategy/
3. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. 2021. Safonau ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Fferyllwyr. Ar gael yn https://www.pharmacyregulation.org/initial-training#
4. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. 2017. Safonau ar gyfer Hyfforddiant ac Addysg Cychwynnol Technegwyr Fferyllol. Ar gael yn https://www.pharmacyregulation.org/initial-PT#.
5. Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2022. Fferylliaeth Gymunedol, 'Arolwg Holi'r Gweithlu'. Ar gael yn https://heiw.nhs.wales/files/heiw-community-as-the-workforce-survey-report/
6. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2023. Cyflogir gan y GIG, 'Arolwg Holi'r Gweithlu'. Heb ei gyhoeddi.
7. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. 2019. Survey of registered pharmacy professionals 2019. Thornhill Brigg Mill. Enventure Research.
8. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Pharmacist Support. 2021. RPS and Pharmacist Support Mental Health and Wellbeing Survey 2021. Ar gael yn https://pharmacistsupport.org/news/workforce-wellbeing-results-2021/
9. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Pharmacist Support. 2022. RPS and Pharmacist Support Mental Health and Wellbeing Survey 2022. Ar gael yn https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Workforce%20Wellbeing/Workforce%20and%20Wellbeing%20Survey%202022-120123.pdf
10. Connelly D. 2021. Work-related stress: the hidden pandemic in pharmacy. The Pharmaceutical Journal, Ar-lein Doi:10.1211/PJ.2021.1.115553
11. Prif Swyddogion Fferyllol y DU, y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a Chymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon. 2022. Joint Communication from the UK Chief Pharmaceutical Officers and the Chief Executives of the GPHC and PSNI. Ar gael yn https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/joint-communication-from-uk-cphos-gphc-psni-december-2022.pdf(pharmacyregulation.org)
12. Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a Pharmacist Support. 2022. Datganiad ar anghenion y gweithlu. Ar gael yn https://www.rpharms.com/recognition/all-our-campaigns/workforce-wellbeing
13. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. 2022. Adnodd Parhad Busnes ar gyfer y Sector Acíwt. Heb ei gyhoeddi
14. Fferylliaeth Gymunedol Cymru. 2022. Pwysau ar y Gweithlu (Prinder Fferyllwyr). Gweithgor Tymor Byr AaGIC ar Atebion Brys ar gyfer y Gweithlu, Ionawr 2022.
15. Llywodraeth Cymru. 2021. Presgripsiwn Newydd. Ar gael yn https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/dyfodol-fferylliaeth-gymunedol-yng-nghymru-presgripsiwn-newydd_0.pdf
16. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2022. Catalogue of Workforce Solutions. Ar gael yn https://rise.articulate.com/share/RryTIB0XokbaCGpDIvYwE5zI-c7LPG3o#/lessons/uFnaC9-Gpm41Fbhcmwj8kLP3xUe3yx2m
17. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2022. Cynllun Integredig AaGIC ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth. Dogfen Dechnegol Mapio Strategaeth ac Ymchwil. Ar gael yn https://heiw.nhs.wales/files/strategy-and-research-mapping-technical-document/
18. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2019. Arolwg o Weithlu Fferylliaeth Gymunedol Cymru 2019. Ar gael yn https://aagic.gig.cymru/files/adroddiad-fferyllfa/
19. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Trosolwg o Broffil y Gweithlu Fferylliaeth. Heb ei gyhoeddi.

Cyrchwyd Chwefror 2022

20. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. 2023. Cofrestr y Cyngor Fferyllol Cyffredinol fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023 – Data Tueddiadau. Ar gael yn https://www.pharmacyregulation.org/about-us/research/gphc-registers-data#
21. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. 2019. Arolwg Aelodau Cofrestredig – Ffeithluniau Cryno. Ar gael yn https://www.pharmacyregulation.org/about-us/research/gphc-survey-registered-pharmacy-professionals-2019#
22. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2023. HEIW Integrated Pharmacy Workforce Plan Strategy and Research Mapping Technical Document. Ar gael yn https://heiw.nhs.wales/files/strateg-and -research-mapping-technical-document1/
23. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2023. Developing a Strategic Workforce Plan the 'HEIW Way'. Heb ei gyhoeddi
24. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2022. Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael yn https://heiw.nhs.wales/files/mental-health-workforce-plan1
25. Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2023. Datblygu Cynllun Gweithlu Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol – Pecyn Adnoddau. Ar gael yn https://aagic.gig.cymru/files/primary-care-resource-pack-cym-may23/
26. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Fframwaith Galluogrwydd Digidol 2022. Ar gael yn https://aagic.gig.cymru/newyddion/gwahoddiad-i-gymryd-rhan-cynllun-peilot-y-fframwaith-galluogrwydd-digidol-ar-gyfer-gofal-iechyd-yng-nghymru/
27. Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2023. Digital and Data Strategy 2023-2028. Ar gael yn https://heiw.nhs.wales/files/heiw-digital-and-data-strategy-2023-28/
28. Llywodraeth Cymru. 2022. Mwy na Geiriau. Cynllun 5 Mlynedd 2022 – 27. Ar gael yn https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-27/more-than-just-words-action-plan-2022-2027.pdf
29. The Kings Fund. 2023. Michael West – Cymrawd Gwadd. Ar gael yn https://www.kingsfund.org.uk/about-us/whos-who/micahel -west
30. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. 2023. Hyfforddi Gweithio Byw – Cymru. Ar gael yn https://trainworklivewales/train/pharmacy
31. Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Tregyrfa. Ar gael yn https://careersville.heiw.wales/cy/
32. Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. 2021. Trawsnewid Mynediad at Feddyginiaethau (TrAMs). Ar gael yn https://pcgc.gig.cymru/rhaglenni-cymru-gyfan/trawsnewid-mynediad-at-feddyginiaethau/
33. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Fframwaith Sgiliau Digidol. Ar gael yn https://digitalskills.uwstd.ac.uk/about-the-framework/
34. American Society of Health-System Pharmacists. 2023. Rhagolwg Fferylliaeth. Ar gael yn https://www.ashpfoundation.org/pharmacyforecast
35. Llywodraeth Cymru. 2022. Canllawiau Statudol Dyletswydd Ansawdd 2023 a Safonau Ansawdd 2023. Ar gael yn https://www.llyw.cymru/dyletswydd-ansawdd
36. Llywodraeth Cymru. 2023. Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu: mynd i'r afael â heriau gweithlu GIG Cymru. Ar gael yn https://www.llyw.cymru/cenedlaethol-ar-gyfer-y-gweithlu